

Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwysra a Gweithredu

Gorffennaf 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddCymunedau@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddCLILCh](https://twitter.com/SeneddCLILCh)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwysra a Gweithredu

Gorffennaf 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau

Cadeirydd y Pwyllgor:



John Griffiths AC
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



Huw Irranca-Davies AC
Llafur Cymru
Ogwr



Mark Isherwood AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Caroline Jones AC
Plaid Brexit
Gorllewin De Cymru



Leanne Wood AC
Plaid Cymru
Rhondda

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Mohammad Asghar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Gareth Bennett AC
UKIP
Canol De Cymru



Carwyn Jones AC
Llafur Cymru
Pen-y-bont ar Ogwr



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	6
Cyflwyniad	10
Ymgysylltu a chasglu tystiolaeth.....	11
1. Cymhwystra ar gyfer Bathodyn Glas	12
1. 1. Meini Prawf Cymhwystra.....	13
Bathodynnau glas a budd-daliadau lles.....	13
Pobl â namau gwybyddol.....	15
Bathodynnau dros dro.....	16
Estyniadau pellach i'r meini prawf cymhwystra.....	18
Gofalwyr.....	20
Ein barn ni.....	21
1. 2. Bathodynnau glas ar gyfer cartrefi preswyl a chartrefi gofal.....	23
Ein barn ni.....	24
2. Y broses asesu	26
2. 1. Rôl tystiolaeth feddygol a gweithwyr meddygol proffesiynol yn y broses asesu.....	26
Model Meddygol neu Gymdeithasol o Anabledd.....	28
Ein barn ni.....	29
2. 2. Cymhwysedd a gwybodaeth aseswyr.....	29
Ein barn ni.....	30
2. 3. Rôl profiad personol yn y broses asesu.....	31
Ein barn ni.....	32
2. 4. Apelio ar benderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol.....	33
Ein barn ni.....	37
3. Anghysondebau wrth weithredu cynllun y Bathodyn Glas ar draws Cymru	39
3. 1. Anghysondebau ar draws Cymru.....	39

3. 2. Camau ymarferol i fynd i'r afael ag anghysondebau.....	41
Ein barn ni	44
3. 3. Proses adnewyddu bathodyn glas.....	46
Ein barn ni	48
4. Gorfodi	49
4. 1. Y graddau y caiff y bathodyn glas ei gamddefnyddio yng Nghymru	49
Ein barn ni	51
4. 2. Gwella gorfodaeth	51
Cosbau am gamddefnyddio	53
Ein barn ni	54
5. Cymorth, cyngor a gwybodaeth	56
5. 1. Cywirdeb, hygyrchedd ac argaeledd gwybodaeth.....	56
Ein barn ni	57
5. 2. Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd (yn enwedig o gyflyrau “cudd”) a herio gwahaniaethu.....	58
5. 3. Ffioedd	59
Ein barn ni	59
5. 4. Dyluniad, argaeledd a lleoliad manau parcio Bathodyn Glas.....	59
Ein barn ni	60
5. 5. Symbol y bathodyn glas.....	61
Ein barn ni	61
Atodiad A: Ymatebion i'r ymgynghoriad.....	63
Atodiad B Yr amserlen o ran tystiolaeth lafar	64

Rhagair y Cadeirydd

Mae bathodynnau glas yn achubiaeth i ystod eang o bobl yn ein cymdeithas. Hebddynt, byddai llawer o'r bobl hyn yn ei chael hi'n anodd sicrhau mynediad at wasanaethau hanfodol, gan gynnwys mynd i apwyntiadau meddygol. Byddai'n anodd iddynt fynd i siopa a defnyddio cyfleusterau hamdden, a byddai hynny'n cyfyngu ar eu gallu i fyw bywydau annibynnol. O ganlyniad, gallent gael eu hynysu'n gymdeithasol, a gallent fod yn gaeth i'w cartrefi eu hunain. Rhaid i'r system fod yn addas i'r diben, o ystyried ei phwysigrwydd i'n cymunedau.

Mae trefniadau gwahanol yn y 22 o gynghorau sy'n bodoli yng Nghymru wedi arwain at anghysonderau o ran gweithredu ledled y wlad. Dylai'r dasg o fynd i'r afael â'r mater hwn fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, a hynny er mwyn sicrhau bod pawb yn cael gwasanaeth o ansawdd, waeth ble maent yn byw. Rydym wedi gwneud awgrymiadau ymarferol er mwyn annog a sicrhau cysondeb.

Gall pobl wneud cais am fathodyn glas yn seiliedig ar gyflyrau meddygol ac anabledau amrywiol, ac mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod nad defnyddwyr cadeiriau olwyn yn unig sydd angen y cymorth hanfodol hwn. Er fy mod yn croesawu'r cam o ymestyn y meini prawf cymhwysedd i gynnwys pobl sydd â namau gwybyddol neu gyflyrau dros dro, mae'n destun pryder i glywed bod deiliaid bathodynnau yn wynebu aflonyddu neu gam-drin oherwydd nad ydynt yn cydweddu â'r ystrydeb mai dim ond y rhai sydd wedi'u cyfyngu i gadeiriau olwyn sy'n gymwys i gael bathodyn.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ein helpu i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Yn benodol, hoffwn ddiolch i gyfranogwyr â phrofiad byw a ddaeth i gyfarfodydd ein grŵp ffocws. Denwyd niferoedd uwch i'r cyfarfodydd hyn nag i'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gennym mewn unrhyw un o'n meysydd gwaith blaenorol, sy'n dangos pwysigrwydd bathodynnau glas a'u heffaith.

Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar yr argymhellion yr ydym wedi'u gwneud yn ein hadroddiad, ac y bydd yr argymhellion hyn yn arwain at wella bywydau pobl ledled Cymru.

John Griffiths AC
Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer bathodyn glas. Dylai'r adolygiad ystyried a oes amodau pellach a ddylai olygu bod rhywun yn gymwys yn awtomatig i dderbyn bathodyn glas, a yw'r broses ar gyfer cynnal asesiad pellach yn ddigon cadarn i ymateb i anghenion amrywiol y rhai sy'n gwneud cais, ac a yw anghenion y rhai sy'n cael diagnosis canser yn cael eu diwallu'n ddigonol..... Tudalen 22

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y trefniant presennol o gyflymu ceisiadau gan y rhai sydd â diagnosis terfynol yn dod yn orfodol.
..... Tudalen 23

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod rôl gofalwyr wrth wneud cais am fathodyn glas ar ran y person y maent yn gofalu amdano/amdani yn cael ei wneud yn glir..... Tudalen 23

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno cynllun parcio dan gonsesiwn, ar wahân i gynllun y bathodyn glas, er mwyn diwallu anghenion y rhai sydd angen mynediad cyflym i amwynderau, megis gofalwyr, y rheini sydd â phroblemau anymataliaeth a'r rhai sy'n dioddef nam dros dro y disgwylir iddo bara llai na 12 mis, heb effeithio ar argaeledd manau parcio ar gyfer y rhai sydd â phroblemau symudedd.
..... Tudalen 23

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod eglurder y gall sefydliadau cymwys wneud cais am fathodyn glas yn eu rhinwedd eu hunain. Dylai'r canllawiau nodi, pan fydd sefydliad yn bodloni'r meini prawf o ofalu am bobl sy'n gymwys a'u cludo, yna dylai'r sefydliad hwnnw allu cael ei fathodyn glas ei hun, yn hytrach na dibynnu ar fathodynau unigolion..... Tudalen 25

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau i nodi y dylid rhoi ystyriaeth gyson a phriodol i wybodaeth a ddarperir gan weithwyr proffesiynol priodol i gefnogi hawliad ymgeisydd am fathodyn glas.
..... Tudalen 29

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau i awdurdodau lleol i nodi'n glir bod yr holl staff sy'n ymgymryd ag asesiadau bathodyn glas yn cael eu hyfforddi i ddeall y model cymdeithasol o anabledd ac i'w rhoi ar waith. Tudalen 31

Argymhelliad 8. Rydym yn cefnogi argymhelliad 8 a wnaed gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ei adroddiad ar ddatblygu trafndiaeth Cymru yn y dyfodol, y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu'r Papur Gwyn nesaf ar y ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n rhagweld rôl i'r rhai sydd â phrofiad personol o system y bathodyn glas wrth sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos eu bod ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar drafndiaeth gyhoeddus..... Tudalen 32

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau angenrheidiol i ddiwygio Adran 21 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi proses "ailystyried" neu "adolygu" mewn lle i ymdrin ag ymgeiswyr sy'n dymuno herio penderfyniad yr awdurdod ar gais am fathodyn glas. Dylai'r diwygiad i'r Ddeddf honno gynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau statudol ar fanylion y broses. Tudalen 38

Argymhelliad 10. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau angenrheidiol i ddiwygio Adran 21 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu proses genedlaethol ffurfiol ar gyfer apelio i ymdrin â'r rheini sy'n anfodlon â chanlyniad eu hapêl gychwynnol. Dylai'r diwygiad i'r Ddeddf honno gynnwys pŵer i wneud rheoliadau ar fanylion y broses, gan gynnwys pa gorff ddylai fod yn gyfrifol am ymdrin â'r apeliadau..... Tudalen 38

Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o ddiwygio Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 i alluogi cyhoeddi canllawiau statudol mewn perthynas â chynllun y Bathodyn Glas, a chymryd y camau angenrheidiol i weithredu newid o'r fath. Dylai hyn gynnwys ystyried a ellir ehangu cwmpas y Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus, y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ei gyflwyno, i gynnwys y newid angenrheidiol a'r newidiadau yr ydym wedi'u cynnig yn argymhellion 9 a 10, neu a ddylid cyflwyno Bil ar wahân i gyflawni hyn. Tudalen 45

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sefydlu gweithgor statudol o gynrychiolwyr awdurdodau lleol ar gyfer cynllun y Bathodyn Glas. Ar ôl ei sefydlu, dylai'r grŵp gyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac arfer da wrth roi'r cynllun ar waith. Dylai'r grŵp gynnwys cynrychiolwyr sydd â phrofiad personol o'r cynllun er mwyn sicrhau y caiff barn y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ei chynrychioli.....Tudalen 45

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu proses i alluogi'r rheini sy'n dioddef o gyflwr gydol oes neu ddirywiol i adnewyddu eu bathodyn glas yn awtomatig, heb asesiad pellach. Byddai'r gweithgor yr ydym wedi argymell y dylid ei sefydlu yn fforwm amlwg i hwyluso trafodaethau o'r fath.....Tudalen 48

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith ar gyfer casglu data swyddogol ar gamddefnyddio bathodynnau glas sy'n benodol i Gymru er mwyn deall graddfa'r broblem yng Nghymru yn well.
.....Tudalen 51

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Cynulliad erbyn Gorffennaf 2020 ar sut y mae camddefnyddio bathodynnau glas wedi gwella o ganlyniad i fod gan bob awdurdod lleol swyddogion gorfodi sifil mewn lle.....Tudalen 54

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i archwilio opsiynau ar gyfer ehangu'r ystod o gosbau a roddir i'r rhai sydd wedi'u cael yn euog o gamddefnyddio'r system bathodyn glas, hyd at a chan gynnwys y posibilrwydd o roi pwyntiau cosb.....Tudalen 54

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i weithio gydag awdurdodau lleol a chyrff iechyd i hyrwyddo'r llyfryn "Pwy sy'n Gymwys am Fathodyn Glas?" trwy sicrhau bod copïau caled ar gael mewn lleoedd mae pobl yn mynd i gael gwybodaeth, fel llyfrgelloedd, canolfannau "hyb" awdurdodau lleol, Cyngor ar Bopeth a lleoliadau iechyd.....Tudalen 57

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'i llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'i llyfryn "Pwy sy'n gymwys am Fathodyn Glas?".....Tudalen 57

Argymhelliad 19. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at awdurdodau lleol i'w hatgoffa o bwysigrwydd ystyried y canllawiau ar barcio hygyrch yn Manual for Streets a Parking for Disabled People pan fyddant yn bwrw ymlaen â pholisi cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio. Dylid hefyd annog awdurdodau lleol i ymgynghori â grwpiau hygyrchedd i sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion pobl anabl wrth wneud penderfyniadau..... Tudalen 60

Cyflwyniad

- 1.** Mae cynllun y Bathodyn Glas yn darparu trefniant cenedlaethol ar gyfer rhoi consesiwn parcio i bobl anabl, ac mae'n gweithredu ar draws y DU. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y cynllun yng Nghymru, ond fe'i gweinyddir gan awdurdodau lleol unigol, sef yr awdurdodau sy'n darparu'r bathodynnau.
 - 2.** Mae dau wahanol gategori cymhwystra i'r Bathodynnau Glas. Gall rhai pobl dderbyn bathodyn glas yn awtomatig, a gelwir hyn yn "gymhwystra heb asesiad pellach". Os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol, efallai y bydd unigolyn yn dal yn gymwys "yn amodol ar asesiad pellach".
 - 3.** Cafwyd dau adolygiad arbenigol diweddar o gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru sydd wedi arwain at newidiadau. Argymhellodd adolygiad arbenigol 2013 y dylid ehangu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer bathodyn glas i bobl â namau gwybyddol. Yn dilyn ymgynghoriad, daeth y rheoliadau sy'n ehangu'r meini prawf cymhwystra i gynnwys pobl â namau gwybyddol i rym ym mis Rhagfyr 2014, ynghyd â chanllawiau newydd i awdurdodau lleol ar weithredu'r meini prawf diwygiedig.
 - 4.** Argymhellodd adolygiad pellach yn 2015 y dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu system bathodyn dros dro, lle mae amodau cymhwyso yn debygol o bara o leiaf 12 mis. Ar 1 Hydref 2016, ehangwyd cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru i gynnwys y rhai sy'n dioddef anafiadau neu salwch dros dro ond sylweddol. Dan y cynllun estynedig, mae bathodynnau glas yn cael eu rhoi am flwyddyn i bobl sy'n "methu â cherdded neu sy'n cael anhawster sylweddol i gerdded oherwydd anabled dros dro ond sylweddol y disgwylir iddo bara am o leiaf 12 mis". Pan fydd y cyfnod cyhoeddi yn dod i ben, gall deiliad y bathodyn ailymgeisio am fathodyn dros dro neu fathodyn parhaol os oes angen.
 - 5.** Cytunwyd i gynnal yr ymchwiliad hwn i gymhwystra a gweithrediad cynllun y Bathodyn Glas er mwyn asesu effeithiolrwydd darpariaethau'r cynllun. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd ystyried:
 - Effaith ehangu'r meini prawf cymhwystra am Fathodyn Glas yng Nghymru, ac a oes angen ehangu'r meini prawf ymhellach;
 - Y gwaith ymarferol o weithredu cynllun y Bathodyn Glas ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â chysondeb y gwaith hwnnw, gan gynnwys asesiadau, ffioedd a gorfodi; ac
-

- Y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ar gael i bobl sy'n gwneud cais am Fathodyn Glas yng Nghymru.

Ymgysylltu a chasglu tystiolaeth

- 6.** Rhwng 14 Ionawr a 1 Mawrth 2019, cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus. Cawsom 20 o ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion. Mae manylion y rhai a ddarparodd dystiolaeth lafar ac a ymatebodd i'n hymgynghoriad ar gael fel atodiadau i'r adroddiad hwn. Clywsom dystiolaeth lafar gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (y Gweinidog) ar 1 Mai 2019.
- 7.** Yn ogystal, cyflwynodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o grwpiau ffocws i glywed yn uniongyrchol gan ddeiliaid presennol a chyn-ddeiliaid bathodynnau glas, darpar ymgeiswyr bathodynnau glas, y rhai y gwrthodwyd eu ceisiadau, gofalwyr a staff perthnasol awdurdodau lleol. Trefnwyd 12 o grwpiau ffocws ar hyd a lled Cymru yn cynnwys 102 o ddinasyddion o bob un o bum rhanbarth y Cynulliad. Cynhaliwyd grwpiau ffocws ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Ceredigion, Sir y Fflint, Gwynedd, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.
- 8.** Cafwyd cyfranogwyr trwy nifer o sefydliadau a grwpiau perthnasol gan gynnwys Age Cymru, Gofalwyr Cymru, Credu, Anabledd Cymru, Anabledd Dysgu Cymru a'r MS Society, yn ogystal â fforymau anabledd a grwpiau mynediad yn Arfon, Ceredigion, Sir y Fflint, Tref-y-clawdd a Phowys. Cafwyd cyfranogwyr eraill drwy gyfrwng fideo esboniadol byr am yr ymchwiliad a hyrwyddwyd ar sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad.
- 9.** Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

1. Cymhwysra ar gyfer Bathodyn Glas

Gall rhai pobl dderbyn bathodyn glas heb asesiad pellach os ydynt yn bodloni meini prawf penodol, tra gall eraill nad ydynt yn bodloni'r amodau hyn fod yn gymwys o hyd, yn amodol ar asesiad pellach.

10. Bydd unigolyn yn gymwys heb asesiad pellach os yw:

- Wedi'i gofrestru/chofrestru'n ddall neu â "nam difrifol ar y golwg";
- Yn derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel;
- Yn derbyn cyfradd uwch elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl;
- Yn derbyn elfen symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ac yn sgorio 8 pwynt o leiaf mewn perthynas â gweithgarwch "symud o gwmpas" yr asesiad PIP, neu o leiaf 12 pwynt yn y gweithgarwch symudedd ar gyfer cynllunio a dilyn siwrneiau; neu
- Yn derbyn budd-dal cyfandaliad gan gynllun lawndal y Lluoedd Arfog (tariffau 1-8), sy'n cynnwys Anhwylder Meddwl Parhaol o dan Dariff 6.

11. Os nad yw'r un o'r amodau hyn yn gymwys, mae'n bosibl y bydd unigolyn yn dal i fod yn gymwys "yn amodol ar asesiad pellach". Mae hyn yn berthnasol os yw'r unigolyn:

- Yn methu â cherdded o gwbl, yn ei chael yn anodd iawn cerdded, neu â nam sylweddol ar symudedd;
 - Yn yrrwr a chanddo/chanddi anabledau difrifol yn y ddwy fraich;
 - O ganlyniad i nam gwybyddol difrifol, yn methu â chynllunio na dilyn unrhyw siwrnai heb gymorth rhywun arall;
 - Yn gwneud cais ar ran plentyn o dan dair oed sydd â chyflwr meddygol sy'n golygu bod angen i gyfarpar meddygol mawr fod wrth ei (h)ymyl, neu fod angen i'r plentyn fod yn agos at gerbyd ar gyfer triniaeth feddygol achub bywyd ar gyfer y cyflwr hwnnw; neu
 - Â salwch terfynol sy'n cyfyngu ar symudedd yn sylweddol.
-

1.1. Meini Prawf Cymhwysra

Bathodynnau glas a budd-daliadau lles

12. Clywsom farn gymysg ar y cysylltiad rhwng cymhwysra ar gyfer bathodyn glas a'r system fudd-daliadau, gyda'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau yn mynegi rhywfaint o bryder.

13. Codwyd pryderon gan rai rhanddeiliaid, yn enwedig ynghylch newidiadau i'r system Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) sy'n effeithio ar hawl awtomatig unigolyn i gael bathodyn glas ac ynghylch oedi wrth setlo apeliadau yn erbyn penderfyniadau PIP. Amlygwyd hyn i ni gan Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan:

“We should also be aware, in this room, that for an awful lot of those people, where they get given a verdict, if you like, from the PIP world, that then there are an awful lot of appeals, and most of those appeals are being overturned [] And in the meantime, if that's actually then having a direct knock-on impact somewhere else in someone's life, around, for example, reapplying for a blue badge—. So, we've got quite a lot of citizens who will have had their blue badge, then they come into the process of the renewal, they might be in the process of their PIP situation, the PIP situation has changed, so suddenly they're not eligible for their blue badge anymore, and it compounds the situation further for them.”¹

14. Cyfeiriodd tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Manon Ellis Williams, gweithiwr achos i Sian Gwenllian AC a Hywel Williams AS, hefyd at unigolion yn profi oedi difrifol gyda'r system PIP, yn enwedig wrth apelio yn erbyn penderfyniadau cymhwysra, a arweiniodd at rai ymgeiswyr yn methu â bod yn gymwys i gael bathodyn glas yn awtomatig nes bod y problemau PIP wedi'u datrys.²

15. Cododd Anabledd Cymru bryderon tebyg, gan awgrymu y dylid adolygu meini prawf cymhwysra y Bathodyn Glas er mwyn egluro hawl pobl â chyflyrau iechyd hirdymor nad oes ganddynt o bosibl yr hawl i PIP mwyach.³

¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 151

² [Tystiolaeth ysgrifenedig. BB09. Manon Ellis Williams](#)

³ [Tystiolaeth ysgrifenedig. BB16. Anabledd Cymru](#)

16. Cyfeiriodd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan hefyd at bryderon ynghylch sut mae'r broses PIP yn diffinio symudedd:

“There is a genuine issue about how the new PIP process sets out what it means by mobility and what that, therefore, means for citizens who claim personal independence payment.”⁴

17. Mae Gwefan PIP yn dweud bod rhywun yn gymwys os yw:

- wedi cael anawsterau gyda bywyd bob dydd neu symud o gwmpas (neu'r ddau) ers 3 mis;
- yn disgwyl i'r anawsterau hyn barhau am o leiaf 9 mis (oni bai bod salwch terfynol arno/arni a llai na 6 mis i fyw).

18. Mae canllawiau ar y meini prawf asesu PIP yn esbonio beth a olygir gan gynllunio a dilyn siwrneiau ac yn dangos y disgrifyddion ar gyfer trothwy pob pwynt, felly beth sy'n ofynnol i gael 4 pwynt, 10 pwynt, 12 pwynt ac ati ar gyfer cynllunio a dilyn siwrneiau. Mae hefyd yn egluro beth a olygir gan symud o gwmpas ac yn dangos y disgrifyddion ar gyfer trothwy pob pwynt, felly beth sy'n ofynnol i gael 4 pwynt, 10 pwynt, 12 pwynt ac ati ar gyfer symud o gwmpas.⁵

19. Clywsom fod angen elfen ddewisol i'r cysylltiad rhwng bod yn gymwys i gael bathodyn glas a budd-daliadau lles, er mwyn dal y rhai nad oes ganddynt hawl awtomatig drwy'r system les, meddai Anabledd Cymru wrthym:

“there needs to be that discretionary element to the blue badge, because a number of people who have gone from the higher rate mobility down to the standard rate, and under eight points, still have impairments, still live with particular conditions that impact on their ability to get out and about, whether PIP recognised it or not.”⁶

20. Cytunodd Cymorth Canser Macmillan (Macmillan) bod angen yr elfen ddewisol, yn enwedig gan ei fod yn ymwybodol o dystiolaeth anecdotaidd o

⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 151

⁵ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Canllaw asesu PIP rhan 2: y meini prawf asesu

⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2019, paragraff 253

geisiadau PIP aflwyddiannus yn cael effaith negyddol ar geisiadau am fathodyn glas.⁷

21. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru (NAS Cymru) wrthym fod gwahaniaeth rhwng pobl awtistig yn gallu cael mynediad i fudd-daliadau fel PIP o gymharu â phobl â chyflyrau corfforol, sy'n golygu eu bod dan anfantais. Clywsom fod y meini prawf dewisol yn dal rhai o'r bobl a allai gwmpo y tu allan i hynny, er y dywedwyd bod lle hefyd i'r meini prawf dewisol ddiwallu anghenion pobl awtistig yn well.⁸

Pobl â namau gwybyddol

22. Yn dilyn argymhelliad gan adolygiad arbenigol o'r cynllun yn 2013, ehangwyd y meini prawf cymhwysra i gynnwys pobl â nam gwybyddol.⁹ Daeth y rheoliadau sy'n ehangu'r meini prawf cymhwysra i rym ym mis Rhagfyr 2014, ynghyd â chanllawiau newydd ar gyfer awdurdodau lleol.

23. Yn gyffredinol, croesawodd rhanddeiliaid yr estyniad i gynnwys pobl â namau gwybyddol, er bod rhai yn cwestiynu a oedd digon o ymwybyddiaeth o'r newid, ymhlith y rhai sy'n gymwys a'r rhai sy'n asesu ceisiadau. Wrth groesawu'r estyniad sydd wedi galluogi llawer o bobl awtistig i gael mynediad i gynllun y Bathodyn Glas am y tro cyntaf, dywedodd NAS Cymru wrthym:

“some of the issues in the implementation have meant that the effect of that hasn't really been realised to its potential.”¹⁰

24. Dywedodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru wrthym am yr amrywiaeth a brofodd rhai unigolion â nam gwybyddol difrifol wrth wneud cais am fathodyn glas:

“right across Wales, there is a huge variation, and we've heard stories of people getting blue badges first try where they've got severe cognitive impairment and various forms of dementia, and we've heard stories where people haven't been able to access them at all and they've had

⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 29

⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 25

⁹ Llywodraeth Cymru, Datganiad y Cabinet – Cynllun y Bathodyn Glas, 3 Mehefin 2014

¹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 10

to go through lengthy appeals processes or they've just been turned down outright.”¹¹

25. Clywsom nad oedd ehangu'r meini prawf cymhwystra i gynnwys pobl â nam gwybyddol wedi arwain at gynnydd mawr yn nifer y bathodynnau glas a gyhoeddwyd, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dweud wrthym mai dim ond 3% o gyfanswm y bathodynnau a roddwyd oedd y rhain. Dywedwyd wrthym nad oedd wedi arwain at angen am adnoddau ychwanegol i weinyddu'r system, a bod cwsmeriaid yn gyffredinol yn ei ystyried yn gam cadarnhaol.¹²

Bathodynnau dros dro

26. Ar 1 Hydref 2016, yn dilyn argymhelliad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Bathodyn Glas ehangwyd cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru i gynnwys y rhai sy'n dioddef anafiadau neu salwch dros dro ond sylweddol. Dan y cynllun estynedig, mae bathodynnau glas yn cael eu rhoi am flwyddyn i bobl sydd “yn analluog i gerdded neu'n cael anhawster sylweddol i gerdded oherwydd anabledd dros dro ond sylweddol y mae disgwyl iddo bara am gyfnod o 12 mis o leiaf”.¹³

27. Pan fydd y cyfnod cyhoeddi yn dod i ben, gall deiliad y bathodyn ailymgeisio am fathodyn dros dro neu fathodyn parhaol yn ôl yr angen. Gall enghreifftiau o anabledd dros dro ond sylweddol gynnwys:

- Person yn gwella o doriadau coes cymhleth, fel y rhai a reolir gyda gosodwyr allanol, am gyfnodau ymhell dros flwyddyn;
- Person yn gwella o strôc neu anaf i'r pen sy'n effeithio ar ei symudedd;
- Person yn gwella o drawma asgwrn cefn sy'n effeithio ar ei symudedd;
- Person yn cael triniaeth feddygol, e.e. ar gyfer canser, sy'n effeithio ar ei symudedd; a
- Person yn gwella o driniaeth gosod cymal newydd, e.e. clun, pen-glin, sy'n cyfyngu'n ddifrifol ar symudedd, neu berson yn disgwyl triniaeth o'r fath.

¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 4

¹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 238

¹³ Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2016

28. Roedd Gofal Canser Tenovus (Tenovus) yn croesawu cynnwys triniaeth canser fel maen prawf cymhwystra ar gyfer bathodyn glas dros dro, o achos effeithiau gwanychol cemotherapi neu radiotherapi. Ychwanegwyd y byddai defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn anhygoel o annoeth yn feddygol oherwydd bod y system imiwnedd yn cael ei gwanhau.¹⁴

29. Croesawodd Macmillan y disgrisiwn a roddwyd i awdurdodau lleol i gyflymu ceisiadau ar gyfer pobl â diagnosis terfynol, ond nododd am nad oedd hyn yn orfodol, nad oedd ganddo ddarlun clir ynghylch a oedd hyn yn digwydd ledled Cymru.¹⁵ Cadarnhaodd cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Sir Caerfyrddin fod y ddau awdurdod yn cyflymu ceisiadau o'r fath, ac na fyddai gofyniad gorfodol i wneud hynny yn creu pwysau ychwanegol.¹⁶

30. Nododd Anabledd Cymru bryder ynghylch lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch bathodynnau dros dro, gan ddweud:

“from our findings, not everybody knows that those temporary badges are available.”¹⁷

31. Cydnabu'r cynrychiolwyr o awdurdodau lleol y gellid gwneud mwy i godi proffil hawl i fathodyn dros dro, ac yn yr un modd ar gyfer y rhai â nam gwybyddol. Awgrymwyd y gallai ymgyrch ar-lein neu ymgyrch gyda sefydliadau'r trydydd sector gynyddu nifer y bobl sy'n ymgeisio.¹⁸

32. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a ddylid lleihau'r amserlen ar gyfer bod yn gymwys am fathodyn glas dros dro er mwyn cynnwys y rhai sydd â nam sy'n achosi symudedd cyfyngedig iawn am gyfnod llai na blwyddyn, pwysleisiodd Anabledd Cymru fod hyblygrwydd yn allweddol:

“Everybody's going to be experiencing their conditions and impairments in different ways. I think what is important is that it is monitored, so we need to ensure that the badge is returned at the end

¹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 6

¹⁵ [Tystiolaeth ysgrifenedig, BB18, Cymorth Canser Macmillan](#)

¹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraffau 254-257

¹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2019, paragraff 211

¹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraffau 247-249

of that temporary period. But, if there is still a need to continue that blue badge, then so be it.”¹⁹

33. Nododd Macmillan a Tenovus hefyd y byddent yn cefnogi amserlen fyrrach.²⁰

34. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch y posibilrwydd o leihau'r cyfnod 12 mis, dywedodd y Gweinidog y gallai arwain at ddefnyddio nifer fawr iawn o fathodynau ychwanegol.²¹

Estyniadau pellach i'r meini prawf cymhwystra

35. Clywsom alwadau gan randdeiliaid am estyniadau pellach i'r meini prawf cymhwystra er mwyn galluogi pobl sy'n byw gyda rhai cyflyrau i ddefnyddio bathodyn glas. Amlygodd tystiolaeth Tenovus wahaniaeth rhwng pobl sy'n hawlio gwahanol fathau o fudd-daliadau lles, oherwydd er bod gan y rhai sy'n derbyn elfen symudedd PIP a'i gyfwerth Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) hawl awtomatig i fathodyn glas, nid oes gan y rhai sy'n derbyn cyfradd uwch y Lwfans Gweini (sy'n fudd-dal i bobl dros 65 oed sydd angen cymorth gartref oherwydd salwch neu anabled) yr un hawl. Nododd Tenovus fod y gyfradd uchaf yn aml yn cael ei dyfarnu i'r rhai sydd â phroblemau symudedd sylweddol ac felly roedd o'r farn y gallai sicrhau cymhwystra awtomatig i'r rhai sy'n derbyn cyfradd uwch y Lwfans Gweini fod yn gam cadarnhaol:

“we would certainly argue for the inclusion of—if you're in receipt of the higher rate of attendance allowance. Because although that itself doesn't have a mobility element, you're going to have some pretty acute mobility needs if you need that benefit.”²²

36. Rhannodd Age Cymru bryderon bod pobl dros oedran pensiwn y wladwriaeth yn gorfod dangos eu problemau symudedd i fod yn gymwys, tra bod y rhai sy'n derbyn PIP a DLA yn gymwys yn awtomatig.²³

¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2019, paragraff 216

²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraffau 116-118

²¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 203

²² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 31

²³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 153

37. Awgrymodd Cymdeithas Alzheimer’s Cymru a NAS Cymru y dylid ehangu’r meini prawf cymhwystra y tu hwnt i’r rhai â phroblemau symudedd i gynnwys y rhai sydd ag anawsterau gyda chydlynu, cydbwysu a chanfod sefyllfaoedd peryglus.

38. Roedd rhai rhanddeiliaid yn dymuno gweld y meini prawf yn cael eu hehangu i grwpiau penodol, gyda Tenovus yn nodi y dylid ystyried y rhai â phroblemau ymataliaeth.

“Consideration of continence issues and the need for urgent access to toilets is also an issue for many of our clients, for whom the limitations on mobility and anxiety that results from the need to urgently access toilet facilities are significant.”²⁴

39. Adleisiwyd hyn gan unigolyn a ymatebodd i’n hymgyngghoriad, y mae angen iddo sicrhau y gall wneud ei ffordd i doiled cyhoeddus yn gyflym am ei fod yn dioddef diferticwlitis:

“I suffer stomach cramps on a daily basis and when they become severe I have less than ten minutes to get to a toilet.

I would like to see a change in policy to allow people with my very distressing disability to be allowed a blue badge to make it easier to park closer to toilets.”²⁵

40. Awgrymodd Anabledd Cymru y dylid cynnwys y rhai â phroblemau iechyd meddwl penodol, fel paranoia a sgitsoffrenia, gan nodi y gall cyflyrau o’r fath effeithio ar allu pobl i fynd allan.²⁶

41. Awgrymodd Tenovus hefyd ehangu’r cynllun i bob claf canser (yn amodol ar dderbyn llythyr eglurhaol boddhaol gan feddyg teulu neu arbenigwr nyrsio clinigol). Mewn llythyr ar y cyd i’r Pwyllgor, awgrymodd Tenovus a Macmillan y gellid ystyried cymhwystra cyffredinol i bob claf canser ar ôl cael diagnosis, o ystyried y cyd-afiacheddau cymhleth sy’n gysylltiedig â chanser ac â thriniaethau canser.²⁷

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, BB 05, Gofal Canser Tenovus

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, BB 20, Unigolyn 5

²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2019, paragraff 251

²⁷ [ELGC\(5\)-17-19.papur.1.gohebiaeth.gan.Tenovus.a.Macmillan](#)

42. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, er bod nifer o gyflyrau penodol wedi'u hystyried i'w cynnwys yn y meini prawf cymhwysra, mae adroddiadau dilynol wedi nodi na ddylid eu cynnwys am nad ydynt yn briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r enghreifftiau canlynol:

“mae anymataliaeth y coluddyn a'r bledren yn dibynnu ar argaeledd toiledau yn hytrach na chonsesiynau parcio a gall pobl â chyflyrau o'r fath gael gafael ar gardiau 'I can't wait';

Pobl â namau symudedd sy'n para am lai na 12 mis gan y byddai eu nifer yn fwy na nifer deiliaid presennol y bathodyn a byddai'r cynllun yn anghynaliadwy ac yn colli hygredded.”²⁸

43. Pwysleisiodd y Gweinidog fod cymhwysra ar gyfer bathodyn glas yn seiliedig ar symudedd, nid ar ddiagnosis meddygol. Dywedodd y gallai canlyniadau anfwriadol ehangu'r meini prawf cymhwysra fod yn eithaf dinistriol.²⁹

Gofalwyr

44. Awgrymodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gofalwyr mewn unrhyw adolygiad o'r canllawiau a'r meini prawf ar gyfer gwneud cais am fathodyn glas. Eglurodd nad yw'r canllawiau cyfredol i awdurdodau lleol yn crybwyll eu bod yn gwneud cais am fathodynau glas, naill ai drostynt eu hunain neu ar ran rhywun y maent yn gofalu amdano/amdani. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i roi ystyriaeth arbennig i ofalwyr, a sut y gallant helpu'r rhai sy'n byw gyda dementia drwy'r broses hon, pan fydd yn datblygu ac yn adnewyddu canllawiau.

45. Roedd Cymdeithas Alzheimer's Cymru o'r farn na ddylid cosbi gofalwyr am ddefnyddio bathodyn glas pan fyddant yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau gofalu, pan nad yw deiliad y bathodyn yn y cerbyd:

“carers who are looking after their loved one and nip to the shops and pop the blue badge on the front of the car to use the space, to nip in to buy a pint of milk and then to rush back home - I think we would need to be very, very careful about, if there were some form of civil punitive measures put in place, whether that was misuse or not. Because, clearly, if the blue badge is in the name of the person who they are

²⁸ ELGC(5)-13-19 papur 1, Llywodraeth Cymru

²⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 38

caring for, technically, yes, it would be, I suppose, misuse, but actually is it a misuse, if it's in performing their caring role?"³⁰

46. Awgrymodd cynrychiolydd Cyngor Sir Gaerfyrddin fod angen i Lywodraeth Cymru egluro a gaiff gofalwyr ddefnyddio bathodyn glas ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau gofalu pan nad yw deiliad y bathodyn glas yn bresennol yn y cerbyd.

47. Cydnabu'r Gweinidog fod gofalwyr weithiau angen mynediad cyflym i siopau a gwasanaethau, ond:

"their needs are nowhere near as significant as people who have the blue badge because they are overcoming physical barriers in terms of their mobility."³¹

48. Dywedodd y byddai'n teimlo'n anesmwyth ynghylch caniatáu i ofalwyr ddefnyddio bathodyn glas pan nad yw deiliad y bathodyn yn bresennol, gan y gallai arwain at gamddefnyddio, a byddai'n anodd ei orfodi.³²

49. Nododd y Gweinidog y gallai ehangu cymhwysra i ganiatáu i ofalwyr feddu ar fathodyn glas yn eu rhinwedd eu hunain arwain at gyhoeddi 370,000 o fathodynau ychwanegol, a mynegodd y byddai'n well ganddo ystyried hyn fel rhan o ystyriaeth ehangach o gonsesiynau parcio ar gyfer ystod ehangach o bobl sydd angen mynediad hawdd at gyfleusterau, gan nodi:

"If we are to see more people benefit from a concession of this sort, I'd prefer to look at it as a parallel process. So, rather than fundamentally change the blue badge, perhaps look at another form of positive parking badge scheme that would capture a larger number of people."³³

Ein barn ni

50. Er ein bod yn cydnabod y gall fod yn ddefnyddiol cysylltu cymhwysra am fathodyn glas â chymhwysra am fudd-daliadau lles gan ei fod o fudd i'r rhai sy'n

³⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 98

³¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 20

³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 23

³³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 68

gymwys yn awtomatig, mae yna lawer o bobl eraill sydd dan anfantais yn sgil y meini prawf cymhwystra awtomatig. Rydym yn derbyn y bydd ceisiadau llawer o bobl eraill y mae angen bathodyn glas arnynt yn cael eu cymeradwyo yn sgil asesiad pellach, ond rydym yn dal i bryderu bod yna lawer o bobl eraill a fydd yn colli allan o ganlyniad i'r broses hon.

51. Clywsom y gwahaniaeth y cyfeiriwyd ato gan Tenovus ac Age Cymru y byddai pobl hŷn dan anfantais yn sgil atal y rheini sy'n derbyn cyfradd uwch y lwfans gweini rhag cael bathodyn glas yn awtomatig. Rydym yn ymwybodol bod y ffigurau diweddaraf o 2016 yn dangos bod 75,000 – 76,000 o bobl yng Nghymru yn derbyn taliad o'r fath,³⁴ felly bydd ehangu cymhwystra i'r grŵp hwnnw yn arwain at gynnydd eithaf sylweddol, er ei bod yn werth nodi bod llawer o'r rheini eisoes yn gymwys o bosibl ac yn meddu ar fathodyn glas.

52. Rydym yn cefnogi'r awgrym a wnaed gan Anabledd Cymru y dylid cynnal adolygiad o feini prawf cymhwystra y bathodyn glas i asesu a yw'r darpariaethau presennol yn addas at eu diben. Dylai adolygiad o'r fath ystyried a oes categorïau eraill o bobl a ddylai fod yn gymwys yn awtomatig, ac a yw'r broses asesu pellach yn ddigon cadarn i sicrhau bod ystod eang anghenion y rhai sy'n gwneud cais yn cael eu hystyried.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer bathodyn glas. Dylai'r adolygiad ystyried a oes amodau pellach a ddylai olygu bod rhywun yn gymwys yn awtomatig i dderbyn bathodyn glas, a yw'r broses ar gyfer cynnal asesiad pellach yn ddigon cadarn i ymateb i anghenion amrywiol y rhai sy'n gwneud cais, ac a yw anghenion y rhai sy'n cael diagnosis canser yn cael eu diwallu'n ddigonol.

53. Nodwn y cynnig gan Tenovus y dylai unrhyw un sy'n cael diagnosis canser fod yn gymwys yn awtomatig i gael bathodyn glas dros dro, a chredwn y dylai'r adolygiad a argymhellwyd gennym ystyried a yw'r meini prawf presennol ar gyfer bathodyn dros dro yn bodloni anghenion y rhai sy'n byw gyda chanser. Rydym yn croesawu'r disgrisiwn a roddir i awdurdodau lleol i gyflymu ceisiadau gan bobl sydd â chyflwr terfynol, ac er ei bod yn ymddangos bod yr awdurdodau y clywsom ganddynt yn gweithredu hyn yn llwyddiannus, er mwyn gwella cysondeb ledled Cymru credwn y dylid gwneud y trefniant hwn yn orfodol.

³⁴ Sefydliad Bevan, *The Future of Attendance Allowance*, Tachwedd 2016

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y trefniant presennol o gyflymu ceisiadau gan y rhai sydd â diagnosis terfynol yn dod yn orfodol.

54. Credwn fod gofalwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn gallu ymweld ag amwynderau. Rydym yn rhannu pryderon nad yw'r canllawiau presennol yn cynnwys darpariaeth i ofalwyr wneud cais am fathodyn glas ar ran y person y maent yn gofalu amdano/amdani. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddiweddarau canllawiau, nodi y caiff gofalwyr wneud cais am fathodyn glas ar ran y person y maent yn gofalu amdano/amdani.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod rôl gofalwyr wrth wneud cais am fathodyn glas ar ran y person y maent yn gofalu amdano/amdani yn cael ei wneud yn glir.

55. Er ein bod yn cydymdeimlo â'r rhesymeg a gyflwynwyd gan Gymdeithas Alzheimer's Cymru ac eraill, y dylai gofalwyr allu defnyddio bathodyn glas y person y maent yn gofalu amdano/amdani pan fyddant yn ymgymryd â'u rôl gofalu, cytunwn â'r Gweinidog y byddai gorfodi trefniant o'r fath yn broblemus. Rydym yn cydnabod bod pwysau o ran amser ar ofalwyr yn aml, yn enwedig os oes angen iddynt fynd ar neges yn gyflym er mwyn dychwelyd i'r person y maent yn gofalu amdano/amdani. Fodd bynnag, teimlwn ei bod yn annheg caniatáu i ofalwyr nad ydynt yn anabl ddefnyddio manau parcio a ddyrannwyd i'r rhai sydd â phroblemau symudedd mwy. Credwn fod gwerth mewn archwilio opsiynau amgen er mwyn galluogi gofalwyr i gael mynediad hawdd i amwynderau, fel cynllun parcio dan gonsesiwn a awgrymwyd gan y Gweinidog.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno cynllun parcio dan gonsesiwn, ar wahân i gynllun y bathodyn glas, er mwyn diwallu anghenion y rhai sydd angen mynediad cyflym i amwynderau, megis gofalwyr, y rheini sydd â phroblemau anymataliaeth a'r rhai sy'n dioddef nam dros dro y disgwylir iddo bara llai na 12 mis, heb effeithio ar argaeledd manau parcio ar gyfer y rhai sydd â phroblemau symudedd.

1. 2. Bathodynnau glas ar gyfer cartrefi preswyl a chartrefi gofal

56. Cododd Age Cymru bryderon am y broses ar gyfer cartrefi gofal, cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl sy'n gwneud cais am fathodyn glas sefydliadol. Awgrymodd y disgwylir iddynt nawr wneud cais am fathodyn glas ar gyfer pob unigolyn perthnasol yn y cartref, yn hytrach nag un bathodyn glas sefydliadol a fyddai'n berthnasol i'r holl breswylwyr perthnasol. Dywedodd Age Cymru wrthym

am wahaniaeth rhwng y daflen “Pwy sy’n gymwys am Fathodyn Glas?” gan Lywodraeth Cymru a chanllawiau i awdurdodau lleol:

“on the back of the blue badge leaflet, it clearly states that care homes can apply for a single blue badge. But checking with Welsh Government guidance, the guidance states that it is preferable – it doesn’t state preferable for whom – for care homes to apply for individual blue badges for their residents.”³⁵

57. Mae’r daflen “Pwy sy’n gymwys am Fathodyn Glas?” yn nodi:

“Gall Sefydliad fod yn gymwys i gael Bathodyn Glas os yw’n gofalu am bobl anabl neu’n cludo pobl anabl fyddai’n gymwys i gael Bathodyn Glas eu hunain.”

58. Dywedodd y Gweinidog y gallai bathodyn unigol fod yn well mewn rhai amgylchiadau pe byddai gofalwr neu aelod o’r teulu yn dymuno mynd ag unigolyn ar ymweliadau:

“an organisational badge will enable an organisation to serve the needs of somebody in residential care. However, in certain circumstances, an individual blue badge might be preferable because, for example, a carer or a family member regularly takes that individual out, therefore it would be more beneficial for them to have an individual blue badge.”³⁶

Ein barn ni

59. Rydym yn croesawu’r ddarpariaeth yn nogfen Llywodraeth Cymru ar gymhwystra i ganiatáu i sefydliadau wneud cais am fathodyn glas er mwyn cludo pobl sydd eu hunain yn gymwys i gael bathodyn, gan fod hyn yn agwedd bwysig ar sicrhau y gall y bobl hynny gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ac y gall y sefydliadau hynny ddefnyddio’u bathodyn eu hunain heb ddibynnu ar unigolion. Roeddem yn bryderus o glywed am y dryswch sydd wedi codi ar brydiau ynghylch ceisiadau. Mae angen i awdurdodau lleol fod yn glir bod sefydliadau’n gymwys ac ni ddylent fod yn cynghori ei bod yn well iddynt wneud cais ar sail unigol. Ac ni ddylai bod yn rhan o sefydliad sy’n meddu ar fathodyn glas rwystro unigolion rhag cael un eu hunain.

³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 143

³⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 29

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod eglurder y gall sefydliadau cymwys wneud cais am fathodyn glas yn eu rhinwedd eu hunain. Dylai'r canllawiau nodi, pan fydd sefydliad yn bodloni'r meini prawf o ofalu am bobl sy'n gymwys a'u cludo, yna dylai'r sefydliad hwnnw allu cael ei fathodyn glas ei hun, yn hytrach na dibynnu ar fathodynnau unigolion.

2. Y broses asesu

Os yw'r sawl sy'n gwneud cais yn gymwys yn amodol ar asesiad pellach, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried tystiolaeth o'i (h)anabledd er mwyn penderfynu a fydd yn cael bathodyn glas. Efallai y bydd gofyn i rai unigolion gael asesiad symudedd annibynnol. Mae gan awdurdodau lleol eu trefniadau eu hunain ar gyfer ymgymryd â'r gweithdrefnau hyn.

2. 1. Rôl tystiolaeth feddygol a gweithwyr meddygol proffesiynol yn y broses asesu

60. Pan fydd yn ofynnol i ymgeisydd gael asesiad pellach i benderfynu a yw'n gymwys, bydd yr awdurdod lleol yn edrych ar dystiolaeth o anabledd yr unigolyn i ddod i benderfyniad. Yn y gorffennol mae'n bosibl bod meddyg teulu'r ymgeisydd wedi cynnal yr asesiad symudedd annibynnol.

61. Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd y Gweinidog (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y pryd) na fyddai gan feddygon teulu rôl ffurfiol bellach yn y gwaith o asesu a yw unigolyn yn gymwys i gael Bathodyn Glas:

“Rwyf wedi bod yn glir nad yw'n briodol defnyddio meddygon teulu i asesu ymgeiswyr am Fathodyn Glas. Mae meddygon teulu yn ymarferwyr arbenigol sy'n cynghori ar ddiagnosis a thriniaethau. Yn gyffredinol, nid ydynt yn arbenigo yn yr effaith y mae cyflwr yn ei chael ar symudedd rhywun, ac mae penderfynu a ddylid dyfarnu Bathodyn Glas yn seiliedig ar hynny. Mae gofyn i feddygon teulu fod yn gyfrifol am hyn hefyd yn ddefnydd gwael o'u sgiliau a'u harbenigedd. Gyda chymorth Cymdeithas Feddygol Prydain a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, rydym felly wedi newid y pecyn cymorth i dynnu meddygon teulu oddi ar y broses asesu.”³⁷

62. Galwodd amryw randdeiliaid am fwy o ystyriaeth o'r wybodaeth a roddir gan weithwyr proffesiynol. Pwysleisiodd Tenovus y byddai'n croesawu rôl ehangach i

³⁷ Datganiad Cabinet Llywodraeth Cymru, Datblygiadau i'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru, 3 Gorffennaf 2017

weithwyr meddygol proffesiynol wrth ardystio, yn hytrach na bodloni meini prawf llym sy'n gysylltiedig â budd-daliadau.³⁸

63. Dywedodd Anabledd Cymru y dylid derbyn ystod o dystiolaeth broffesiynol, gan gynnwys tystiolaeth gan feddyg teulu, ymgynghorydd, gweithiwr cymdeithasol neu therapydd galwedigaethol.³⁹ Cododd NAS Cymru faterion tebyg, gan nodi y byddai tystiolaeth gan athrawon, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gydag unigolyn yn sicrhau y byddai mwy o bobl gymwys yn cael bathodyn glas.⁴⁰ Dywedodd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan hefyd y dylid defnyddio sbectrwm llawer ehangach o dystiolaeth, gan gynnwys datganiadau gan ofalwyr gofal cymdeithasol, gan ofalwyr teulu, cynorthwywyr addysgu neu weithwyr cymdeithasol.⁴¹

64. Eglurodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei fod o'r farn bod tynnu meddygon teulu oddi ar y broses yn ddatblygiad cadarnhaol. Yn ei ardal, mae ymgeiswyr sydd angen asesiad ychwanegol yn cael eu hasesu gan un therapydd galwedigaethol, sydd, yn ei farn, yn sicrhau dull cyson, yn hytrach na bod llawer o wahanol feddygon teulu yn gwneud y gwaith hwn:

“in Carmarthenshire, the people who need to have an assessment are seen by predominantly one occupational therapist. So, she's got consistency; she can benchmark her assessments, and then she's supported by her line manager. And I think that's a better model than having lots and lots of different GPs signing the paperwork and agreeing the assessments.”⁴²

65. Nododd papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru fod tynnu meddygon teulu oddi ar y broses yn lliniaru'r pwysau sydd ar wasanaethau meddygon teulu ac yn hybu penderfyniadau cyson. Dywedodd y Gweinidog, er nad oes rôl ffurfiol bellach i feddygon teulu, eu bod yn dal i ymwneud â'r broses ond nid mewn cymaint o

³⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 23

³⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2019, paragraff 253

⁴⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 56

⁴¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 149

⁴² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 327

achosion. Dywedodd nad yw diagnosis meddygol yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen i benderfyniad.⁴³

Model Meddygol neu Gymdeithasol o Anabledd

66. Awgrymodd Cyngor Gwynedd bod y broses asesu bresennol yn dilyn y model meddygol o anabledd, yn hytrach na'r model cymdeithasol o anabledd, gan ei bod yn canolbwyntio ar allu'r ymgeisydd i gerdded, yn hytrach na gofyn sut y gallai bathodyn glas ganiatáu i'r ymgeisydd barhau i fyw'n annibynnol.⁴⁴ Gwnaethom archwilio hyn gyda rhanddeiliaid eraill.

67. Dywedodd Anabledd Cymru wrthym y dylai'r broses ddilyn y model cymdeithasol o anabledd, trwy ganolbwyntio ar y rhwystrau sy'n wynebu'r ymgeisydd, yn hytrach na'r cyflwr meddygol:

“it's not so much about their medical conditions, it's about the ability to be able to get out of their vehicles, get out of their houses and access whatever they need to access, whether it's shops, services, education, employment. That needs to be the focus.”⁴⁵

68. Cydnabu cynrychiolwyr o awdurdodau lleol fod meysydd annelwig. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, er bod y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn cefnogi'r model cymdeithasol, bod y ddeddfwriaeth y tu ôl i system y bathodyn glas yn canolbwyntio ar yr ochr feddygol. Clywsom fod y canllawiau ynghylch achosion dewisol yn cynghori y dylid ystyried anhawster yr ymgeisydd wrth gerdded, gan gynnwys, er enghraifft, osgo, rhythm, cydlynad ac yn y blaen, a fyddai'n pwyntio at y model meddygol. Ychwanegodd y cynrychiolydd:

“However, there's other information there that says that each blue badge should be treated on a case-by-case basis and should correctly identify people who require a badge to overcome the barriers they face in accessing services. Again, I think that's more towards the social model.”⁴⁶

⁴³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 117

⁴⁴ [Tystiolaeth ysgrifenedig BB07, Cyngor Gwynedd](#)

⁴⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2019, paragraff 223

⁴⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 310

69. Aeth y cynrychiolydd ymlaen i ddweud, ar sail ei brofiad ef yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, y byddai cydbwysedd yn cael ei geisio trwy ddefnyddio synnwyr cyffredin.⁴⁷

Ein barn ni

70. Mae'r Gweinidog wedi egluro ei resymeg dros ddileu'r rôl ffurfiol i feddygon teulu yn y broses asesu. Rydym yn derbyn y rhesymeg honno, yn enwedig am nad oes gan feddygon teulu, mewn rhai achosion, wybodaeth fanwl am amgylchiadau penodol unigolyn. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a glywsom fod y rhai sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau o'r farn y dylai fod rôl i ystod o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys meddygon teulu, i roi gwybodaeth i gefnogi cais am fathodyn glas.

71. Er nad ydym o'r farn y dylai fod yn ofynnol i weithwyr proffesiynol roi cefnogaeth ar gyfer pob achos unigol, dylai'r asesydd ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol a roddant mewn ffordd broffesiynol, gyson a phriodol. Ni ddylai gwybodaeth o'r fath gael ei chyfyngu i weithwyr meddygol proffesiynol. Yn hytrach, dylid ei derbyn hefyd gan eraill sydd â gwybodaeth fanwl o amgylchiadau unigolyn, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol.

72. Clywsom mai therapyddion galwedigaethol hyfforddedig sy'n gwneud asesiadau pellach gan Gyngor Sir Caerfyrddin, dull sy'n gweithio'n dda ym marn y Cyngor. Mae'n bwysig bod gan y rhai sy'n gwneud y gwaith hwn ddealltwriaeth dda o broblemau symudedd, felly mae'n ymddangos bod defnyddio'r arbenigedd hwn yn ymagwedd synhwyrol.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau i nodi y dylid rhoi ystyriaeth gyson a phriodol i wybodaeth a ddarperir gan weithwyr proffesiynol priodol i gefnogi hawliad ymgeisydd am fathodyn glas.

2. 2. Cymhwysedd a gwybodaeth aseswyr

73. Clywsom bryderon gan rai rhanddeiliaid am gymhwysedd a gwybodaeth rhai o'r rhai sy'n cynnal yr asesiadau pellach. Amlygodd Anabledd Cymru anghysondebau yng ngwybodaeth a dealltwriaeth aseswyr ar draws awdurdodau lleol, gyda rhai termau fel "cerdded" ac "anhawster sylweddol wrth gerdded" yn

⁴⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 314

cael eu diffinio neu eu barnu'n wahanol mewn gwahanol awdurdodau lleol. Dywedodd Anabledd Cymru wrthym:

“our view is we're not entirely convinced about people's competence to carry out those assessments. We haven't got knowledge of what training those people have undertaken to come to those decisions.”⁴⁸

74. Codwyd y mater hwn hefyd gan NAS Cymru a awgrymodd y dylai hyfforddiant addas, gan gynnwys hyfforddiant awtistiaeth, fod yn orfodol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar gymhwysta ar gyfer bathodyn glas o dan y meini prawf dewisol ar nam gwybyddol. Roedd Cymdeithas Alzheimer's Cymru o'r farn bod risg i'r system roi'r rhai sy'n byw gyda dementia dan anfantais os na chaiff aseswyr hyfforddiant penodol ar ddementia.

75. Amlygodd Manon Ellis Williams bryderon nad yw aseswyr yn gymwys i wneud asesiadau meddygol ac nad oes ganddynt wybodaeth am effaith cyflyrau meddygol penodol ar fywyd bob dydd. Cwestiynodd hefyd a ydynt yn deall cyflyrau sy'n gwella ac yn gwaethygu'n gyfnodol, yn enwedig os yw'r ymgeisydd yn digwydd cael diwrnod cymharol dda pan fydd yr asesiad yn digwydd.

76. Clywsom gan Gyngor Sir Caerfyrddin mai therapyddion galwedigaethol sy'n cynnal eu hasesiadau a bod hyn yn sicrhau bod lefel briodol o arbenigedd yn rhan o'r broses. Fodd bynnag, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili drefniadau gwahanol, gydag aseswyr sydd wedi'u hyfforddi ond heb eu cymhwyso'n feddygol.

77. Dywedodd y Gweinidog nad yw'r staff sy'n ymgymryd â'r gwaith i fod yn weithwyr proffesiynol meddygol, gan ychwanegu:

“they are not in their own right medical professionals themselves. They are challenged to ensure that blue badges are awarded on the basis of mobility, not on the basis of medical diagnosis.”⁴⁹

Ein barn ni

78. Mae'n hanfodol bod gan y rhai sy'n cynnal asesiadau ddealltwriaeth dda o'r problemau symudedd sy'n effeithio ar bobl er mwyn penderfynu a oes angen bathodyn glas ar rywun i gynorthwyo gyda bywyd bob dydd. Mae'r dull a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin o ddefnyddio therapydd

⁴⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2019, paragraff 260

⁴⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 123

galwedigaethol cymwys i wneud y gwaith yn enghraifft o arfer da, ac er nad oes angen i bob asesydd fod â chymwysterau meddygol, dylai pob un fod wedi'i hyfforddi'n ddigonol i ddeall problemau symudedd a dangos empathi at ymgeiswyr.

79. Mae gennym rai pryderon am yr awgrym bod y broses asesu yn canolbwyntio'n fawr ar y model meddygol o anabledd. Mae deall y model cymdeithasol o anabledd yn allweddol, a dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pob asesydd yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol yn hyn o beth fel rhan o'i rôl er mwyn gwella cysondeb ar draws yr holl awdurdodau lleol.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau i awdurdodau lleol i nodi'n glir bod yr holl staff sy'n ymgymryd ag asesiadau bathodyn glas yn cael eu hyfforddi i ddeall y model cymdeithasol o anabledd ac i'w rhoi ar waith.

2. 3. Rôl profiad personol yn y broses asesu

80. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y byddai cynnwys profiad personol pobl sydd ag anabledau a gwybodaeth uniongyrchol o gynllun y Bathodyn Glas yn gwella'r broses asesu. Dywedodd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan:

“It would be much better if it was seen as a collaborative process between the local authority and citizens who are in receipt of it.”⁵⁰

81. Awgrymodd y Fforwm hefyd y dylid defnyddio unigolion â phrofiad personol o anabledau a chyflyrau meddygol fel “grŵp arbenigol” anffurfiol i fonitro'r broses ymgeisio. Roedd yn rhagweld y byddai monitro o'r fath yn rhan o broses gydweithredol rhwng yr awdurdod lleol a deiliaid bathodynau glas, lle gallai grwpiau trydydd sector ddarparu hyfforddiant i aseswyr, a fyddai'n cael ei ddilyn drwy weithio gyda “grŵp arbenigol” o ddeiliaid bathodynau a fyddai'n rhoi cyngor a gwybodaeth barhaus. Credai y dylid trefnu cynllun o'r fath ar y cyd â gwell casglu data, a allai ddangos a yw unrhyw awdurdod lleol penodol neu asesydd unigol yn ei chael hi'n anodd asesu. Yna byddai'r rhai y nodir bod angen cymorth ychwanegol arnynt yn cael cynnig cyngor a gwybodaeth gan y “grŵp arbenigol”, a byddai'n sicrhau hefyd bod yr holl aseswyr yn parhau i adnewyddu a gwella eu sgiliau.⁵¹

⁵⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 179

⁵¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 185

82. Eglurodd y Gweinidog fod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus yn cynnwys cynigion i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth (JTAs), ac y gallai pobl â phrofiad personol gynghori'r JTAs ar sut y gellir gwella cynllun y Bathodyn Glas a meysydd gwasanaeth trafndiaeth eraill. Nododd y Gweinidog:

“I think there could be a role for a national forum, or regional forums, to be established that could advise JTAs on best practice, on lived experience, on the process of applying for blue badges.”⁵²

Ein barn ni

83. Rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid y gall cynnwys y rhai sydd â phrofiad personol yn y broses asesu arwain at welliannau. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i gynnwys rôl o'r fath wrth sefydlu a datblygu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth, ond nid yw'n glir i ni beth fyddai rôl o'r fath yn ei olygu.

84. Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi ystyried cynigion i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth yn fanwl yn ei adroddiad ar ddatblygu Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol. Nodwn ei fod yn datgan mai rhan fechan a chwaraeodd rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu cynigion yn y Papur Gwyn a'i fod yn disgwyl gweld tystiolaeth bendant o ymgynghori a chyd-gynhyrchu yn y dyfodol wrth i gynigion JTA gael eu datblygu. Rydym yn adleisio'r alwad honno ac yn gofyn am eglurder gan y Gweinidog ynghylch sut y mae'n rhagweld y bydd rôl ar gyfer y rhai sydd â phrofiad personol o system y bathodyn glas yn cael ei hymgorffori yn ei gynigion ar gyfer sefydlu JTAs.

85. Mae'r Papur Gwyn yr ymgynghorodd Llywodraeth Cymru arno yn canolbwyntio ar wasanaethau bws a thacsis a cherbydau hurio preifat, gyda manylion cyfyngedig ar Gyd-awdurdodau Trafnidiaeth y tu hwnt i rôl mewn perthynas â bysiau a thacsis / cerbydau hurio preifat, felly byddem yn croesawu eglurder gan y Gweinidog o ran sut y mae'n rhagweld y byddai Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth yn ymgorffori darpariaethau sy'n ymwneud â bathodynnau glas.

Argymhelliad 8. Rydym yn cefnogi argymhelliad 8 a wnaed gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ei adroddiad ar ddatblygu trafndiaeth Cymru yn y dyfodol, y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu'r Papur Gwyn nesaf ar y ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i

⁵² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 185

sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n rhagweld rôl i'r rhai sydd â phrofiad personol o system y bathodyn glas wrth sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos eu bod ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

2. 4. Apelio ar benderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol

86. Ar hyn o bryd, nid yw'n gyfreithiol ofynnol ar awdurdodau lleol i roi gweithdrefn ffurfiol mewn lle ar gyfer proses apelio, felly byddai angen newid yn y gyfraith.

87. Mynegodd nifer o randdeiliaid bryderon am nad yw'n gyfreithiol ofynnol i awdurdodau lleol fod â gweithdrefn ar gyfer proses apelio, gan argymhell y dylid cyflwyno un. Dywedodd Anabledd Cymru:

“we know that, in the guidance, it actually states that there is no appeal process. So, once a decision's made it is final. But there is room to ask the local authority to reconsider their decision.

It can be difficult for some disabled people to do that, to have the confidence to do that. So, perhaps, in our view, there is room for an appeals process.”⁵³

88. Ategodd eraill y farn hon, a dywedodd Age Cymru:

“technically, there is no appeals process against a blue badge. There are various types of recourse, but even so, we have had people come to us who have been told they can appeal, and have also been told that there's no point in them appealing because the grounds won't have changed.”⁵⁴

89. Dywedodd rhanddeiliaid y byddai proses apelio yn galluogi awdurdodau lleol i feincnodi ceisiadau i wella cysondeb. Awgrymodd NAS Cymru:

⁵³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ebrill 2019, paragraffau 266-267

⁵⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 195

“one of the ways in which you can overcome the variability of the system is to have some sort of oversight that at least provides some level of certainty for people.”⁵⁵

90. Cododd Macmillan faterion tebyg, gan nodi:

“it’s about good practice. The appeals process can see where the variations and discrepancies are and that can feed into an overall improvement of the process.”⁵⁶

91. Dywedodd Cyngor Caerffili fod ganddo broses ar gyfer ailystyried:

“We’ll explain to the customer, if they’ve been refused a blue badge, the reasons, and what they can do next. Normally, we’ll just ask them to write in to us if they’ve got any further information or further medical evidence or something else they’d like to present.”⁵⁷

92. Clywsom fod nifer y cwynion ffurfiol yn ymwneud â’r broses bathodyn glas yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin yn isel iawn gan fod swyddogion yn ceisio gweithio gydag ymgeiswyr i geisio tynnu’r wybodaeth allan.⁵⁸

“we try and work with applicants, really, to try and get them a badge where they meet the criteria, et cetera. So, we try and work with them. It’s sort of a positive approach, really. There’s no reason not to award the badge if somebody really needs one.”⁵⁹

93. Dywedodd y Gweinidog fod proses apelio annibynnol o fewn ardaloedd awdurdodau lleol, lle y gellir gwneud atgyfeiriadau ar benderfyniadau. Nododd hefyd os oes anawsterau wrth benderfynu a ddylai cais lwyddo, gellir atgyfeirio at y Gwasanaeth Cyngori Annibynnol (IAS), sy’n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd:

⁵⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 73

⁵⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 77

⁵⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 352

⁵⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraffau 357-358

⁵⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 362

“I’d be really interested to see any evidence that would suggest, or would lead us to conclude, that the independent appeals process within any of the local authorities is not operating properly, fairly or independently. I’d be really interested to see that, because I would consider whether we need an additional form of appeals process to be established.”⁶⁰

94. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd Cymdeithas Alzheimer’s Cymru at y Pwyllgor, gan gyfeirio at lyfryn gwybodaeth Llywodraeth Cymru, sy’n datgan:

“The local authority’s decision on eligibility is final. There is no appeals process.”⁶¹

95. Dywedodd y Gweinidog y gall unigolion apelio i Lywodraeth Cymru, mewn rhai amgylchiadau,⁶² sy’n mynd yn groes i’r llyfryn, sy’n nodi:

“The Welsh Government has no power to intervene in the decision making process if an application is rejected.”

96. Yn dilyn hynny, ysgrifennom at y Gweinidog i gael eglurder ar y materion hyn. Yn ei ymateb, dywedodd y Gweinidog:

“Ni nododd y ddeddfwriaeth sylfaenol na’r is-ddeddfwriaeth y gofyniad am broses apelio ar sail herio penderfyniadau ar gymhwysedd.

Disgwylir i awdurdodau lleol roi eu system eu hunain ar waith i adolygu achosion lle na roddwyd bathodyn i ymgeisydd a lle y mae’r ymgeisydd hwnnw am herio’r penderfyniad. O’r wybodaeth a gafwyd, gwneir hyn fel arfer ar ffurf adolygiad gan reolwr tîm. Yn ogystal, mae gan bob awdurdod lleol weithdrefnau cwyno.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi gofyn p’un a allant atgyfeirio achosion lle mae’r ymgeisydd yn herio’r penderfyniad at y Gwasanaeth Asesu Annibynnol gan fod Llywodraeth Cymru yn talu am y gwasanaeth hwn. Nid yw Llywodraeth Cymru erioed wedi gwrthod y ceisiadau hyn. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod lleol yn defnyddio’r Gwasanaeth Asesu

⁶⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 173

⁶¹ [ELGC\(5\)-15-19 papur 1, gohebiaeth gan Gymdeithas Alzheimer’s Cymru](#)

⁶² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 173

Annibynnol. Ni chadwyd cofnodion ffurfiol o dan yr amgylchiadau hyn.”⁶³

⁶³ ELGC(5)-17-19 papur 2, Llythyr gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Ein barn ni

- 97.** Rydym yn ymwybodol y byddai angen diwygio Adran 21 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 i'w gwneud yn ofynnol ar awdurdodau lleol i sefydlu proses apelio, ac i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a/neu gyhoeddi canllawiau statudol yn ymdrin â sut y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol.
- 98.** Rydym yn deall y byddai hyn yn bosibl, yn amodol ar ddrafftio unrhyw ddiwygiad i sicrhau ei fod yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae cyfle cyfartal yn fater a gedwir yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, ond mae eithriad mewn perthynas â rhoi dyletswyddau ar awdurdod lleol i wneud trefniadau gyda'r nod o sicrhau y caiff ei ddyletswyddau eu cyflawni gan roi ystyriaeth briodol i'r angen i fodloni'r gofynion cyfle cyfartal. Felly, credwn pe byddai diwygiad i Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 yn cael ei ddrafftio'n ofalus i ddod o fewn yr eithriad hwn, yna gallai'r Cynulliad basio deddfwriaeth i ddiwygio'r Ddeddf honno, er mwyn darparu ar gyfer proses adolygu neu debyg.
- 99.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a glywsom y dylai fod gan ymgeiswyr fecanwaith clir i apelio pan fydd awdurdod lleol yn barnu nad ydynt yn gymwys i gael bathodyn glas. Rydym wedi ein perswadio bod achos dros hyn ac y dylid rhoi trefniadau mewn lle i alluogi ymgeiswyr i ymresymu ymhellach i gefnogi eu hawliadau.
- 100.** Yn y lle cyntaf, credwn mai'r awdurdod cyhoeddi ddylai ymdrin ag apeliadau o'r fath er mwyn cadw'r broses mor anffurfiol â phosibl. Dylent sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol bod llwybr clir mewn lle. Nodwn y dystiolaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ynghylch y broses o ailystyried y mae'n ei gweithredu er mwyn caniatáu darparu gwybodaeth ategol bellach. Nodwn dystiolaeth y Gweinidog bod disgwyl i awdurdodau lleol roi eu system eu hunain mewn lle i adolygu achosion, ond dylai fod yn ofynnol bod darpariaeth o'r fath ar gael.
- 101.** Dylai fod modd hefyd i'r rheini sy'n dymuno fynd â'u hapêl ymhellach os ydynt yn dal i fod yn anfodlon â'r canlyniad cychwynnol. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai fod gweithdrefn ffurfiol ar lefel Cymru gyfan.
- 102.** Rydym yn rhannu'r gred a fynegwyd gan randdeiliaid y byddai cael proses o'r fath yn ei lle yn rhoi cyfle i feincnodi ceisiadau, a allai helpu i wella cysondeb ac arwain at lai o apeliadau wrth i aseswyr ddysgu o gynseiliau blaenorol.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau angenrheidiol i ddiwygio Adran 21 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi proses "ailystyried" neu "adolygu" mewn lle i ymdrin ag ymgeiswyr sy'n dymuno herio penderfyniad yr awdurdod ar gais am fathodyn glas. Dylai'r diwygiad i'r Ddeddf honno gynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau statudol ar fanylion y broses.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau angenrheidiol i ddiwygio Adran 21 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu proses genedlaethol ffurfiol ar gyfer apelio i ymdrin â'r rheini sy'n anfodlon â chanlyniad eu hapêl gychwynnol. Dylai'r diwygiad i'r Ddeddf honno gynnwys pŵer i wneud rheoliadau ar fanylion y broses, gan gynnwys pa gorff ddylai fod yn gyfrifol am ymdrin â'r apelïadau.

3. Anghysondebau wrth weithredu cynllun y Bathodyn Glas ar draws Cymru

Cododd nifer o randdeiliaid bryderon ynghylch anghysondebau wrth weithredu'r cynllun ar draws awdurdodau lleol. Clywsom awgrymiadau am gamau ymarferol y gellid eu cymryd i wella cysondeb wrth wneud cais am fathodyn glas ac wrth ei adnewyddu.

3. 1. Anghysondebau ar draws Cymru

103. Yn 2015, argymhellodd y grŵp gorchwyl a gorffen ar y bathodyn glas y dylai Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau cysondeb, archwilio opsiynau ar gyfer corff canolog i gydlynu'r gwaith o gyflwyno'r cynllun ar draws Cymru.⁶⁴ Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gyda'r ymateb yn datgan:

“Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r achos busnes a'r opsiynau ar gyfer sefydlu corff canolog ar gyfer cyd-gysylltu'r cynllun Bathodyn Glas ar draws Cymru ac mae'n bosibl y bydd hynny'n gofyn am sefydlu pwerau deddfu sylfaenol.”⁶⁵

104. Mewn datganiad a wnaed ar yr argymhellion ym mis Ionawr 2016, dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd:

“Ni fydd modd gwireddu rhai o argymhellion y Grŵp [Gorchwyl a Gorffen ar Gynllun y Bathodyn Glas] ar unwaith, gan y bydd angen newid deddfwriaeth sylfaenol. Rwy'n glir, fodd bynnag, fy mod am weld gwelliant a byddaf yn ystyried y dadleuon o blaid sefydlu un corff i weinyddu'r cynllun trwy Gymru a chyhoeddi cyfarwyddyd statudol ar orfodi'r cynllun.”⁶⁶

105. Mae'n amlwg bod anghysondebau o hyd o ran gweithredu, gyda'r holl randdeiliaid yn mynegi rhwystredigaeth. Lleisiodd Tenovus ei siom ynglŷn â'r hyn a

⁶⁴ Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Bathodyn Glas, Hydref 2015

⁶⁵ Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Bathodyn Glas

⁶⁶ Datganiad Cabinet Llywodraeth Cymru, Argymhellion a dyfodol cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru, 19 Ionawr 2016

ystyriodd yn amrywiaeth enfawr, o gyngor i gyngor, yn y ffordd o asesu a phrosesau gweinyddol cynllun y bathodyn glas, ac ychwanegodd:

“Some insist on clients making an appointment to complete an application, other areas allow our CSAs [Cancer Support Advisors] to send in an application on a client’s behalf. Some have paper based applications available online, others don’t. Some insist on assessments, others don’t. Some accept covering letters from CNSs [clinical nurse specialists], others don’t. Some accept covering letters from GPs, others don’t.”

106. Ychwanegodd fod yr anghysondebau hyn yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar gleifion cancer yng Nghymru.⁶⁷

107. Beirniadodd Age Cymru hefyd y diffyg cysondeb ar draws awdurdodau lleol. Dywedodd:

“Some officers apply a reasonable interpretation of the guidelines, while others take what seems to us to be a very harsh approach.”⁶⁸

108. Roedd eu tystiolaeth yn cyfeirio at faterion penodol yn ymwneud ag asesu pobl â salwch meddwl. Rhoddodd enghraifft o rywun â dementia a oedd wedi cael ei ryddhau gan y meddyg ymgynghorol gan na ellid gwneud mwy i wella ei gyflwr, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o nam ar y person, o gofio nad yw llythyr gan feddyg teulu o reidrwydd yn brawf digonol i’r swyddog sy’n gwneud y penderfyniad. Mae ymagwedd anghyson yn creu ansicrwydd i ymgeiswyr a gall olygu bod y rhai sydd angen parcio hygyrch yn methu â chael bathodynau glas.

109. Mynegodd Macmillan bryderon tebyg am y broses ymgeisio:

“there is a huge amount of inconsistency across Wales...both in terms of which forms are used, the length of the forms, who’s required to sign them, what evidence you need to back that up.”⁶⁹

⁶⁷ [Tystiolaeth ysgrifenedig, BB.05, Tenovus Cancer Care](#)

⁶⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig, BB.08, Age Cymru](#)

⁶⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 43

110. Dywedodd Tenovus fod yn rhaid i’w gynghorwyr, sy’n gweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol, gadw taenlen i olrhain yr amrywioldeb yn y ffordd y caiff y cynllun ei weithredu.⁷⁰

111. Clywsom gan gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol nad oes proses mewn lle i fonitro a ydynt yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili:

“There’s guidance, but there’s no process that we are checked on how we deal with the guidance itself.”⁷¹

112. Dywedodd Cyngor Gwynedd nad oes cysondeb ar draws Cymru o ran y weithdrefn asesu – mae rhai cynghorau’n cadw at argymhellion Llywodraeth Cymru, tra bod eraill yn dilyn system wahanol. Nododd bod adborth gan rai ymgeiswyr “yn awgrymu ei bod hi’n llawer haws cael bathodyn glas yn rhai rhannau o Gymru, gan fod y drefn asesu yn amrywio” sydd wedi “arwain at gwynion ac honiadau nad yw’r cynllun yn cael ei weithredu yn gywir yng Ngwynedd”.⁷²

113. Dywedodd y Gweinidog mai ei flaenoriaeth gyntaf oedd sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu mewn ffordd gyson ar draws Cymru.⁷³

3. 2. Camau ymarferol i fynd i’r afael ag anghysondebau

114. Mynegodd Cymdeithas Alzheimer’s Cymru bryderon ynghylch natur ddewisol dyfarnu bathodyn glas i’r rhai nad ydynt yn gymwys yn awtomatig, sy’n golygu nad oes dull cyson ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Mae’n credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried llunio meini prawf a phroses asesu sylfaenol statudol i sicrhau bod pobl ar hyd a lled Cymru yn cael yr un gwasanaeth sylfaenol. Dywedodd:

“We are concerned that unless concerted effort is made to improve this consistency, the changes the government is proposing will not go far

⁷⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 44

⁷¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 271

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig BB.07.Cyngor Gwynedd

⁷³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 50

enough to address the limitations in the blue badge scheme faced by people with dementia.”⁷⁴

115. Mae Anabledd Cymru yn credu y dylid cryfhau'r canllawiau i awdurdodau lleol. Galwodd am adolygiad i sicrhau bod asesiadau o fathodynau dewisol yn gyson ar draws Cymru. Dywedodd:

“There appears to be a postcode lottery in Wales.”⁷⁵

116. Mynegodd NAS Cymru bryderon hefyd ynglŷn ag amrywiaeth mewn prosesau ymgeisio, a chynigiodd gamau i fynd i'r afael â'r broblem trwy gyhoeddi templedi cenedlaethol ar gyfer ceisiadau a chanllawiau, rhoi sylfaen statudol i ganllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol neu sefydlu corff cenedlaethol i weinyddu'r cynllun yng Nghymru. Awgrymodd hefyd y dylid cyhoeddi unrhyw ddata sy'n ymwneud â dyfarnu bathodynau glas dewisol ym mhob awdurdod lleol.⁷⁶

117. Clywsom fod teuluoedd wedi dweud wrth Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan y byddai'n dda cael hyfforddiant cyson ar draws yr holl awdurdodau lleol ar gyflyrau penodol.⁷⁷

118. Awgrymodd Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful y dylai Llywodraeth Cymru ystyried safoni'r broses ymgeisio ar draws Cymru.⁷⁸

119. Cytunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Sir Caerfyrddin y byddai'n ddymunol cael mwy o gysondeb ar draws Cymru ac y dylid ystyried sefydlu gweithgor i edrych ar arfer gorau ar draws awdurdodau lleol.⁷⁹

120. Mae Adran 21 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (Deddf CCPA)⁸⁰ yn darparu ar gyfer arddangos bathodynau ar gerbydau modur a ddefnyddir gan bersonau anabl. Mae Adran 21(2) a (3) yn nodi y gellir rhoi'r bathodynau i unrhyw berson neu sefydliad sy'n cyd-fynd â disgrifiad rhagnodedig. Mae'r disgrifiad rhagnodedig wedi'i nodi mewn rheoliadau, yn unol ag adran 21(7) o Ddeddf CCPA.

⁷⁴ [Tystiolaeth ysgrifenedig BB.02. Cymdeithas Alzheimer's Cymru](#)

⁷⁵ [Tystiolaeth ysgrifenedig BB.16. Anabledd Cymru](#)

⁷⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig BB.10. Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru](#)

⁷⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 157

⁷⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig BB.17. Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful](#)

⁷⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraffau 278-279

⁸⁰ [Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970](#)

Yng Nghymru, Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 yw'r rheoliadau hyn.

121. Rhaid diwygio Deddf CCPA i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch gweithredu'r rheoliadau hyn.

122. Cadarnhaodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru mai dyma'r sefyllfa am mai mater i awdurdodau lleol yw gweinyddu cynllun y Bathodyn Glas.⁸¹ Er ei bod wedi darparu canllawiau anstatudol, ffurflenni cais enghreifftiol a phecyn cymorth i gynorthwyo wrth brosesu ceisiadau.⁸²

123. Cyhoeddwyd y pecyn cymorth gyntaf ym mis Medi 2014 i gynorthwyo gyda'r gwaith o wirio ceisiadau am fathodyn glas. Dywedodd y Gweinidog mai'r pwrpas oedd hybu cysondeb a sicrhau bod y system yn gweithredu'n deg ar draws pob rhan o Gymru.⁸³ Fodd bynnag, cydnabu fod problemau:

“you’ve heard evidence, and I’ve anecdotally heard, that there’s an inconsistent approach and that sometimes individuals perhaps aren’t advised as best as they could be in terms of eligibility and the criteria and the process that needs to be followed.”⁸⁴

124. Er nad oes unrhyw rwymedigaeth statudol i ddefnyddio'r pecyn cymorth, dywedodd y Gweinidog ei fod yn credu bod pob awdurdod lleol yn ei ddefnyddio ar ryw ffurf. Fodd bynnag, cadarnhaodd hefyd nad ydynt yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar y graddau y dibynnir arno.⁸⁵ Felly mae'n anodd i ni ddeall sut mae cynghorau ar hyd a lled Cymru yn defnyddio'r pecyn cymorth, sydd â'r nod o hybu cysondeb.

125. Clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi darparu gweithdai hyfforddi yn 2017 a bod 18 o 22 awdurdod lleol wedi cymryd rhan, ond pan gynigiwyd hyfforddiant diweddar yn 2018, dim ond un a ddangosodd ddiddordeb, a chanslodd yr awdurdod hwnnw yn ddiweddarach.⁸⁶

⁸¹ [ELGC\(5\)-13-19.papur.1.Llywodraeth.Cymru](#)

⁸² [ELGC\(5\)-13-19.papur.1.Llywodraeth.Cymru](#)

⁸³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 142

⁸⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 13

⁸⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 144

⁸⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 149

126. Yn ei lythyr dyddiedig 23 Mai, rhoddodd y Gweinidog fanylion pellach am ymgysylltiad cynghorau â'r gweithdai.⁸⁷

127. Derbyniodd y Gweinidog y byddai'n fwy dymunol pe bai canllawiau statudol yn eu lle,⁸⁸ ond eglurodd y cyfyngiadau presennol ac y byddai o bosibl angen newid deddfwriaeth sylfaenol y DU i gyflawni hyn⁸⁹.

128. Dywedodd y gallai sefydlu JTAs fod yn ateb syml⁹⁰ wrth fynd i'r afael â chysondeb. Gallent atgyfnerthu arbenigedd a datrys anghysondebau a sicrhau bod arfer gorau wedi'i rannu'n llawn ar draws llywodraeth leol yng Nghymru.⁹¹

129. Dywedodd y swyddog a oedd yn rhoi cefnogaeth i'r Gweinidog:

“Part of what we're exploring with the future joint arrangements is how we can issue guidance to those new bodies that are created. And it may be that this issue could be swept up as part of that wider set of arrangements about guidance.”⁹²

Ein barn ni

130. Roedd y dystiolaeth a glywsom yn glir – mae anghysondebau wrth weithredu cynllun y Bathodyn Glas yn peri cryn bryder i ymgeiswyr ac wedi arwain at amrywiaethau ar draws Cymru. Cawsom ein siomi gan y diffyg cynnydd a wnaed ers i'r grŵp gorchwyl a gorffen amlygu problemau o'r fath yn ei adroddiad yn 2015. Dylid mynd i'r afael â hwy ar frys er mwyn sicrhau bod y system yn deg i bawb, waeth ble maent yn byw. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi cydnabod mai sicrhau cysondeb yn y cynllun ddylai fod y brif flaenoriaeth, ac rydym nawr yn disgwyl gweld camau i fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol a amlygwyd yn yr adroddiad hwn a chan y grŵp gorchwyl a gorffen.

131. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i geisio gwella cysondeb trwy ddarparu canllawiau anstatudol, pecyn cymorth a

⁸⁷ ELGC(5)-17-19 papur 2, [Llythyr gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth](#)

⁸⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 142

⁸⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 164

⁹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 4

⁹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 15

⁹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 167

gweithdai hyfforddi i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, fel y mae'r Gweinidog wedi cydnabod, mae sicrhau y cedwir at y rhain yn anodd yn absenoldeb rhwymedigaeth gyfreithiol. Mae'n amlwg i ni mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r cysondeb angenrheidiol fyddai galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol. Fodd bynnag, sylweddolwn y byddai angen newid deddfwriaethol i ganiatáu gweithredu o'r fath.

132. Nodwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd, mewn ymateb i adroddiad 2015 gan grŵp gorchwyl a gorffen y bathodyn glas, wedi cytuno i ystyried gwneud canllawiau ar gynllun y Bathodyn Glas yn statudol a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru nawr archwilio'r llwybr gorau ar gyfer diwygio Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 i alluogi cyhoeddi canllawiau statudol.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o ddiwygio Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 i alluogi cyhoeddi canllawiau statudol mewn perthynas â chynllun y Bathodyn Glas, a chymryd y camau angenrheidiol i weithredu newid o'r fath. Dylai hyn gynnwys ystyried a ellir ehangu cwmpas y Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus, y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ei gyflwyno, i gynnwys y newid angenrheidiol a'r newidiadau yr ydym wedi'u cynnig yn argymhellion 9 a 10, neu a ddylid cyflwyno Bil ar wahân i gyflawni hyn.

133. Rydym yn croesawu'r awydd a fynegwyd gan gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol i gael mwy o gyfleoedd i rannu arfer da a phrofiadau gyda chydweithwyr o awdurdodau eraill, a chredwn y dylid bwrw ymlaen â gwaith o'r fath. Rydym yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan Lywodraeth Cymru i drefnu gweithdai, ond roedd diffyg rhwymedigaeth gyfreithiol i gymryd rhan yn amharu ar effeithiolrwydd y rhain. Credwn y bydd cael canllawiau statudol yn hybu cysondeb ar draws cynghorau, a thrwy hynny gellir canolbwyntio'n fwy ar rannu arfer gorau.

134. Credwn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar rannu profiadau ac arfer da rhwng awdurdodau lleol er mwyn dileu anghysondebau wrth weithredu cynllun y Bathodyn Glas. Wrth weithredu'r camau sydd eu hangen i alluogi cyhoeddi canllawiau statudol, dylai Llywodraeth Cymru hefyd weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sefydlu gweithgor statudol o gynrychiolwyr awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth ac arfer.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sefydlu gweithgor statudol o gynrychiolwyr awdurdodau lleol ar gyfer cynllun y Bathodyn Glas. Ar ôl ei sefydlu, dylai'r grŵp gyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac arfer da wrth roi'r cynllun ar waith.

Dylai'r grŵp gynnwys cynrychiolwyr sydd â phrofiad personol o'r cynllun er mwyn sicrhau y caiff barn y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ei chynrychioli.

3. 3. Proses adnewyddu bathodyn glas

135. Clywsom dystiolaeth ar faterion yn codi mewn perthynas ag adnewyddu bathodynnau glas, yn enwedig mewn perthynas â chyflyrau iechyd gydol oes neu ddirywiol.

136. Nododd Anabledd Cymru anghysondebau o ran adnewyddu, gan nodi bod rhai o'i aelodau sydd â chyflyrau iechyd a / neu namau hirdymor yn gorfod cael asesiad llawn. Dywedodd y byddai'n croesawu dyfarnu bathodynnau am gyfnod hwy na thair blynedd i adlewyrchu'r ffaith na fydd cyflwr yn gwella os oes gan unigolyn gyflwr iechyd neu nam hirdymor cynyddol.⁹³

137. Codwyd materion tebyg gan ymgeiswyr unigol, a holodd pam fod bathodynnau glas yn cael eu rhoi am gyfnodau cymharol fyr, pan fo gan ymgeiswyr gyflyrau gydol oes neu ddirywiol.⁹⁴

138. Dywedodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru nad yw'r broses bresennol, yn enwedig ar gyfer ailasesu, yn ystyried bod dementia yn gyflwr cynyddol a therfynol. Pwysleisiodd fod trin pob achos o adnewyddu fel cais newydd yn peri gofid i ymgeiswyr, ac yn dangos diffyg dealltwriaeth am y cyflwr gan y meini prawf, y broses asesu a'r aseswyr. Mae'n argymhell y dylai pob asesydd o gymhwysra gael ei hyfforddi i lefel un o leiaf ar fframwaith "Gwaith Da".⁹⁵

139. Dywedodd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan fod y prosesau yn syml iawn weithiau, bron fel math o dasg bapur syml, ond bod enghreifftiau eraill lle gofynnir i bobl ddechrau o'r dechrau a dod o hyd i'r holl dystiolaeth eto ac ailwneud popeth, rhywbeth a ddisgrifiodd fel peth eithaf gofidus a phoenus.⁹⁶

140. Cynigiodd y dylai'r broses adnewyddu ar gyfer unigolion â chyflyrau gydol oes neu ddirywiol fod yn dasg bapur ac y dylid rhoi bathodynnau am fwy na thair blynedd, gan leihau'r baich ar aseswyr ac osgoi gofid i unigolion.⁹⁷

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, BB.16, Anabledd Cymru

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, BB.01, Unigolyn 1; Tystiolaeth ysgrifenedig, BB.19, Unigolyn 4

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig BB.02, Cymdeithas Alzheimer's Cymru

⁹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 166

⁹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 170-171

141. Dywedodd Age Cymru ei fod wedi clywed gan bobl a oedd yn gymwys o'r blaen ond a gafodd wybod nad oeddent bellach yn gymwys, er nad oedd eu hamgylchiadau wedi newid. Roedd yr achosion hyn yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl a gymeradwywyd ar sail feddygol, lle mae meddyg teulu neu ymgynghorydd wedi bod yn rhan o'r broses asesu. Rhoddodd enghraifft o unigolyn a oedd mewn gofid mawr ar ôl cael gwybod gan swyddog gweinyddol ifanc mewn swyddfa cyngor na allai adnewyddu, er nad oedd ei chyflwr wedi newid. Dywedodd Age Cymru y gall achosion o'r fath gael effaith seicolegol sylweddol ar ymgeiswyr.⁹⁸

142. Roedd cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws hefyd yn teimlo nad yw'n gwneud synnwyr cynnal ailasesiad yn achos y rhai sydd â chyflyrau parhaol sy'n annhebygol o wella neu a fydd yn dirywio. Roeddent yn teimlo y dylid dilyn synnwyr cyffredin mewn amgylchiadau o'r fath. Mynegodd un cyfranogwr y farn:

“Mae yna grŵp penodol o bobl rydych chi'n gwybod nad ydyn nhw am wella. Ddylen nhw ddim cael eu hasesu mor aml ag y maen nhw. Dylai fod fel trwydded yrru lle mae'r bathodyn yn para am ddeng mlynedd i bobl sydd â chyflyrau penodol.”

Rhiant deiliad bathodyn glas, Sir Benfro⁹⁹

143. Nododd un unigolyn a ymatebodd i'n hymgynghoriad ei bod yn rhaid iddo/iddi, er mwyn adnewyddu cyn mis Ionawr 2019, ymweld â swyddfeydd y cyngor lleol neu gallai wneud cais mewn egwyddor ar-lein, ond am na allai lwytho'r data ategol gofynnol i fyny, roedd yn rhaid iddo/iddi anfon data sensitif at y cyngor yn y gobaith y byddai'n cyrraedd y lle iawn. Fodd bynnag, ychwanegodd bod y broses adnewyddu ar-lein wedi gwella'n fawr yn ei (h)ardal oherwydd gall nawr atodi dogfennau yn uniongyrchol at feysydd penodol o'r cais a bydd yn cael cadarnhad bod y data wedi'i dderbyn a'i drosglwyddo i'r awdurdod.¹⁰⁰

144. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei fod wedi cynnal cynllun peilot llwyddiannus, yn edrych ar fathodynau y mae'n dod yn amser eu hadnewyddu o fewn cyfnod o chwech i wyth wythnos, gan gysylltu â'r cwsmeriaid hynny. Clywsom fod y rhain yn gwsmeriaid y mae'r awdurdod eisoes wedi bod mewn cysylltiad â hwy ac y mae'r cyngor yn gwybod am eu cyflwr meddygol, ac fel arfer maent yn gyflyrau meddygol sy'n dirywio dros amser. Dywedwyd wrthym y gellir gwneud penderfyniad ynghylch adnewyddu dros y ffôn ar ôl trafodaeth gyflym

⁹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 166

⁹⁹ Ymchwiliad i'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwyster a Gweithredu – nodyn cryno o'r grwpiau ffocws

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, BB11, Unigolyn 6

am eu bathodyn blaenorol, a bod y dull hwn wedi bod yn boblogaidd gyda'r rhai sy'n ceisio adnewyddu.¹⁰¹

145. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd Llywodraeth Cymru fod Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cydweithio i gyflwyno system ledled y DU i wneud cais ar-lein. Nododd fod prosesau symlach wedi'u cynnwys wrth ddatblygu'r system, sy'n golygu pan fydd awdurdod lleol yn fodlon bod gan ymgeisydd dystiolaeth i ddangos y bydd angen bathodyn glas arno/arni yn barhaol, caiff y broses ymgeisio ar gyfer rhoi bathodynnau newydd ei byrhau.¹⁰²

Ein barn ni

146. Gall y broses o orfod adnewyddu bathodyn glas fod yn anodd iawn i berson sy'n dibynnu ar y bathodyn hwnnw, yn enwedig os oes angen iddo/iddi ddangos nad yw ei (h)amgylchiadau wedi newid. Credwn y gellir lliniaru'r baich ar y rhai sy'n adnewyddu drwy fod awdurdodau lleol yn mabwysiadu dull sy'n galluogi pobl â chyflwr gydol oes neu gyflwr sy'n byrhau bywyd i adnewyddu yn awtomatig heb yr angen am asesiad pellach. Rydym yn croesawu'r dull rhagweithiol a gymerwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o gysylltu â'r rhai a fydd angen adnewyddu yn fuan a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol dros y ffôn. Er ein bod wedi clywed bod y dull hwn wedi bod yn effeithiol, nid ydym yn ymwybodol a oes prosesau tebyg yn cael eu defnyddio mewn llefydd eraill.

147. Rydym yn croesawu'r gwelliannau a wnaed i alluogi ymgeiswyr i gyflwyno dogfennau ategol ar-lein, er ei bod yn bwysig sicrhau nad dyma'r unig ffordd o ddarparu dystiolaeth o'r fath, yn enwedig i'r rhai sy'n llai cyfarwydd â defnyddio technoleg o'r fath, neu'r rhai sy'n cael anhawster gwneud hyn yn sgil eu cyflwr.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu proses i alluogi'r rheini sy'n dioddef o gyflwr gydol oes neu ddirywiol i adnewyddu eu bathodyn glas yn awtomatig, heb asesiad pellach. Byddai'r gweithgor yr ydym wedi argymell y dylid ei sefydlu yn fforwm amlwg i hwyluso trafodaethau o'r fath.

¹⁰¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 285

¹⁰² [ELGC\(5\)-13-19.papur.1.Llywodraeth.Cymru](#)

4. Gorfodi

Clywsom dystiolaeth yn ymwneud â chamddefnyddio cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru ac rydym wedi ystyried dulliau amgen o ymdrin ag ymddygiad o'r fath.

4. 1. Y graddau y caiff y bathodyn glas ei gamddefnyddio yng Nghymru

148. Dywedodd y Gweinidog mai ei ail flaenoriaeth mewn perthynas â'r materion hyn yw:

“to ensure that the blue badge is being used properly and isn't being misused.”¹⁰³

149. Er bod cynrychiolwyr o Tenovus, NAS Cymru a Macmillan wedi cyfeirio at dystiolaeth anecdotaidd o gamddefnyddio yn y system, nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw ddata empirig ar y graddau y caiff y bathodyn ei gamddefnyddio yng Nghymru, neu ddata empirig am deiliaid bathodynnau glas yn methu â chael mynediad i fannau parcio i'r anabl am fod pobl yn defnyddio'r manau hynny heb fathodyn.

150. Trafododd y rhai a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws y cwestiwn a oes camddefnydd helaeth o'r Cynllun yng Nghymru, a mynegwyd barn gymysg. Rhannodd rhai cyfranogwyr hanesion am ffrindiau a/neu aelodau teulu deiliaid bathodynnau yn defnyddio'r bathodyn pan nad oedd y deiliad yn y cerbyd, ond roedd eraill heb weld unrhyw gamddefnydd. Siaradodd y cyfranogwyr am gadw golwg i weld a oedd llefydd yn cael eu defnyddio gan bobl gymwys. Dywedodd rhai:

“Cyn i fy mab gael ei eni, wnes i ddim cymryd llawer o sylw. Allwch chi ddim barnu, ond rydyn ni i gyd yn gwneud. Mi fydda i'n edrych ar rai pobl ac yn meddwl 'Ydyn nhw'n anabl?'. Rydw i wedi gweld rhai pobl yn parcio mewn lle parcio hygyrch cyn hercio i mewn i'r siop ar un goes, a hercio allan ar y llall.”

Rhiant deiliad bathodyn glas, Sir Benfro

¹⁰³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 95

“Rwy’n herio os ydw i’n gweld rhywun nad yw’n edrych yn anabl, ond dydw i ddim yn herio’n ymosodol. Rwy’n holi oherwydd y rhagdybiaethau – efallai na fydda i’n gweld beth yw’r broblem. Rwy wir yn gwrthwynebu pobl yn camddefnyddio’r Bathodyn. Os ydych chi’n ei wneud (eu herio) yn ofalus, dydych chi ddim yn gwylltio pobl.”

Deiliad bathodyn glas a gofalwr deiliad bathodyn glas, Casnewydd ¹⁰⁴

151. Trafododd llawer o’r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws ganfyddiad, gan egluro, er ei bod yn bosibl bod rhai pobl yn camddefnyddio’r cynllun, nad yw’r farn bod problemau helaeth o reidwrydd yn adlewyrchu’r realiti:

“Rwy’n credu ei fod yn ymwneud mwy â chanfyddiad. Rwy’n credu bod nifer y bobl sy’n ei gamddefnyddio yn fach yn ôl pob tebyg, ond mae’n fater mor danbaid fel ei fod yn cael mwy o sylw.”

Deiliad bathodyn glas, Powys ¹⁰⁵

152. Roedd rhai cyfranogwyr yn cydnabod bod llawer o anabledau yn anweledig a bod yr ehangu’r meini prawf cymhwystera i’r rhai sydd â namau gwybyddol wedi golygu bod pobl ag anabledau llai gweladwy yn cael eu hystyried, yn annheg, i fod yn camddefnyddio’r cynllun. Dywedodd un:

“Rwy’n adnabod rhywun a gafodd drafferth ym maes parcio Tesco ychydig fisoedd yn ôl ac roeddwn i’n teimlo drosti. Roedd ganddi tua chwech o bobl yn ei chwestiynu oherwydd ei bod wedi parcio mewn man Bathodyn Glas, gan ddweud “Does gen ti ddim hawl parcio yna, does gen ti ddim anabled!” – wel efallai bod gan y fenyw honno anabled na allwch chi ei weld!”

Rhiant deiliad bathodyn glas, Sir Benfro ¹⁰⁶

153. Dywedodd y Gweinidog:

“We already know that there is an issue with fraudulent activity – misuse and abuse. We believe that about one in five blue badges are being misused or abused.”¹⁰⁷

¹⁰⁴ [Ymchwiliad i'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwyster a Gweithredu - Nodyn cryno o'r grwpiau ffocws](#)

¹⁰⁵ [Ymchwiliad i'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwyster a Gweithredu - Nodyn cryno o'r grwpiau ffocws](#)

¹⁰⁶ [Ymchwiliad i'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwyster a Gweithredu - Nodyn cryno o'r grwpiau ffocws](#)

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 38

154. Eglurodd swyddog y Gweinidog mai data ar lefel y DU yw hwn, yn hytrach nag ystadegyn sy'n benodol i Gymru. Yn llythyr dilynol y Gweinidog ar 23 Mai, eglurodd fod y data y cyfeiriodd ato yn deillio o adroddiad y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018 ac yn ymwneud ag ystadegau o Loegr.¹⁰⁸

Ein barn ni

155. Mae'r Gweinidog wedi pwysleisio'r angen i ddileu camddefnyddio bathodynnau glas o'r system, ac er ein bod yn cytuno â'r egwyddor honno, ni chawsom dystiolaeth gref o broblemau o'r fath gan randdeiliaid. Er ei bod yn bwysig sicrhau cywirdeb y system trwy leihau camddefnydd, mae'n hanfodol nad yw hyn yn arwain at dargedu'r rhai ag anableddau cudd am nad yw eu hanabledd neu eu nam yn amlwg. Rydym wedi clywed am ddigwyddiadau poenus lle mae pobl gymwys wedi cael eu cyhuddo ar gam, a byddem yn pryderu pe bai gorfodaeth gryfach yn arwain at gynnydd mewn digwyddiadau o'r fath.

156. Rydym yn pryderu bod y data a gyflwynwyd i ni gan y Gweinidog yn ymwneud â digwyddiadau yn Lloegr, nid Cymru, yn enwedig gan fod y sefyllfa mewn dinasoedd fel Llundain lle mae parcio ceir ar breimiwm yn wahanol iawn i'n gwlad ni. Byddem yn disgwyl i nifer y bobl sy'n camddefnyddio bathodynnau glas yn yr ardaloedd hynny fod yn uwch, felly mae'n bwysig casglu data swyddogol sy'n benodol i Gymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o raddfa'r broblem.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith ar gyfer casglu data swyddogol ar gamddefnyddio bathodynnau glas sy'n benodol i Gymru er mwyn deall graddfa'r broblem yng Nghymru yn well.

4. 2. Gwella gorfodaeth

157. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y dylai cynorthwywyr parcio neu wardeniaid traffig allu sganio cod bar ar flaen bathodyn glas i gael gafael ar wybodaeth y deiliad. Gallai'r wybodaeth fod ar "gerdyn deallus" y gellid ei gysylltu â'r gofrestr ganolog i weld a yw bathodyn wedi dod i ben, wedi cael ei adrodd ar goll neu wedi'i ddwyn, neu heb ei ddychwelyd ar ôl marwolaeth y deiliad.¹⁰⁹

¹⁰⁸ ELGC(5)-17-19 papur 2, Llythyr gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, BB 14, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

158. Dywedodd Tenovus ei fod, mewn egwyddor, o blaid cynllun o'r fath, ond pwysleisiodd na ddylid ei gyflwyno ar gost ariannol i ddeiliaid bathodynnau glas.¹¹⁰

159. Pwysleisiodd Cyngor Conwy y dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i gosbau, a dylid cyhoeddi canllawiau ar gyfer y cosbau priodol, gyda'r gallu i argymhell pwyntiau ar drwydded yrru fel rhwystr pellach.

160. Awgrymodd Anabledd Cymru y dylai wardeniaid traffig fod yn fwy llym wrth orfodi, a dylai swyddogion yr heddlu fod yn fwy gweithredol. Roedd Anabledd Cymru hefyd yn credu bod angen defnyddio mesurau cryfach yn erbyn pobl sy'n parcio mewn mannau bathodyn glas heb fod ganddynt fathodyn, er enghraifft pwyntiau cosb ar drwydded yrru.

161. Ar y llaw arall, cawsom ein hatgoffa hefyd o'r angen i ddangos cydymdeimlad wrth ymdrin ag achosion anfwriadol o'r hyn sy'n ymddangos i fod yn gamddefnyddio, er enghraifft os bydd bathodyn glas yn dod yn rhydd ac felly ddim yn cael ei arddangos yn iawn. Disgrifiodd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan achos ble roedd gofalwr wedi cael tocyn cosb am fod y person roedd yn gofalu amdano/amdani, a oedd ag anghenion awtistig cymhleth, wedi taro'r bathodyn oddi ar y panel blaen.¹¹¹

162. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru y gall Swyddogion Gorfodi Sifil awdurdodau lleol gyrchu'r gronfa ddata genedlaethol i wirio statws bathodyn glas sy'n cael ei arddangos trwy ddyfeisiau llaw. Os gwelir bod bathodyn sydd wedi'i ganslo yn cael ei ddefnyddio, gallant roi Hysbysiad Tâl Cosb. Nododd fod gorfodaeth yn dibynnu ar y swyddogion hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi arfer da, a threfnodd weithdai gyda'r awdurdodau lleol yn 2017. Nododd y cytunwyd ar brosiect peilot i weithredu arfer da. Fodd bynnag, yn dilyn gwahoddiad i awdurdodau lleol wneud cais am arian ychwanegol, dim ond un tendr a ddaeth i law, ac nid oedd hwnnw'n bodloni meini prawf y prosiect.

163. Dywedodd y Gweinidog y bydd gan bob awdurdod lleol ei Swyddog Gorfodi Sifil ei hun erbyn mis Gorffennaf 2019, i sicrhau bod cynllun y bathodyn glas yn cael ei orfodi'n llawn ac yn briodol.¹¹² Dywedodd ei fod yn disgwyl, o ganlyniad, y

¹¹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 88

¹¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 4 Ebrill 2019, paragraff 203

¹¹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 91

bydd y rhai sy'n camddefnyddio'r cynllun yn cael eu hatal rhag gwneud hynny yn y dyfodol.¹¹³

164. Clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi trafod gwell gorfodaeth gyda gweithredwyr meysydd parcio preifat ar gyfer archfarchnadoedd, ond ychydig o awydd sydd am hyn.¹¹⁴

Cosbau am gamddefnyddio

165. Rydym yn ymwybodol bod cryn dipyn o ddeddfwriaeth mewn lle sy'n rhoi'r pŵer i'r awdurdodau gorfodi perthnasol reoleiddio'r cynllun. O dan Adran 21 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 gellir rhoi dirwy o hyd at £1,000 am gamddefnyddio bathodyn glas, sy'n gynnwys:

- defnyddio bathodyn ffug;
- peidio â chyflwyno'r bathodyn i'w archwilio gan swyddog gorfodi sifil neu warden traffig/heddlu;
- defnyddio bathodyn wedi'i ganslo neu ei ddwyn;
- defnyddio bathodyn heb hawl, neu os yw'r hawl wedi dod i ben;
- defnyddio bathodyn sy'n perthyn i berson arall gyda chydsyniad neu hebdo;
- defnyddio bathodyn sydd wedi dod i ben;
- defnyddio bathodyn y mae awdurdod lleol wedi gofyn am gael ei ddychwelyd; neu
- beidio ag arddangos y bathodyn yn gywir.

166. Nodwn hefyd, o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, bod:

- Adran 47 yn darparu y bydd person sy'n gadael cerbyd mewn man parcio dynodedig (fel man parcio i'r anabl) ac eithrio fel y mae wedi cael awdurdod i wneud (h.y. heb Fathodyn Glas dilys) yn euog o drosedd a bydd yn cael Hysbysiad Cosb Benodedig/Hysbysiad Tâl Cosb.

¹¹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 210

¹¹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 280

- Adran 115 yn darparu y gall person gael dirwy o hyd at £5,000 a hyd at ddwy flynedd yn y carchar os bydd yn defnyddio bathodyn na fwriedir iddo/iddi ei ddefnyddio neu os bydd yn rhoi gwybodaeth ffug er mwyn cael bathodyn.
- Adran 117 yn darparu bod person sy'n mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â throeddau parcio o dan y Ddeddf hefyd yn euog o drosedd os oedd, ar adeg cyflawni'r drosedd barcio, yn arddangos bathodyn anabl yn anghywir. Gall y person hwnnw gael dirwy o hyd at £1,000.

Ein barn ni

167. Credwn y gall gwell defnydd o dechnoleg wneud cyfraniad gwerthfawr i gael gwared ar gamddefnydd yn y system bathodynnau glas, yn enwedig trwy alluogi swyddogion gorfodi i gael mynediad i fanylion dilysrwydd bathodyn. Felly, rydym yn croesawu'r sicrwydd gan y Gweinidog y bydd swyddogion yn eu lle ar draws yr holl awdurdodau lleol erbyn diwedd Gorffennaf 2019 ac y bydd ganddynt fynediad i dechnoleg o'r fath.

168. Fodd bynnag, oni bai bod swyddog yn gweld y bobl sydd mewn car sy'n arddangos bathodyn dilys, ni fydd yn gallu pennu a yw'r bathodyn yn cael ei ddefnyddio gan y person y bwriadwyd iddo/iddi ei ddefnyddio. Felly, rydym yn ansicr sut y bydd gostyngiad mawr mewn achosion o gamddefnyddio.

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Cynulliad erbyn Gorffennaf 2020 ar sut y mae camddefnyddio bathodynnau glas wedi gwella o ganlyniad i fod gan bob awdurdod lleol swyddogion gorfodi sifil mewn lle.

169. Credwn fod gwerth mewn archwilio a fyddai rhoi cosbau llymach, gan gynnwys pwyntiau cosb fel y'u rhoddir ar gyfer troseddau goryrru, yn gweithio fel rhwystr i'r rhai sy'n camddefnyddio'r system. Gan fod troseddau traffig ffyrdd wedi'u cadw yn ôl o dan baragraff 105 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru, nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i addasu'r cosbau sydd mewn lle ar hyn o bryd ar gyfer troseddau parcio. Dylai Llywodraeth Cymru felly weithio gyda Llywodraeth y DU i archwilio opsiynau ar gyfer cynyddu'r cosbau a roddir i'r rhai sy'n euog o gamddefnyddio'r system bathodyn glas.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i archwilio opsiynau ar gyfer ehangu'r ystod o gosbau a roddir

i'r rhai sydd wedi'u cael yn euog o gamddefnyddio'r system bathodyn glas, hyd at a chan gynnwys y posibilrwydd o roi pwyntiau cosb.

5. Cymorth, cyngor a gwybodaeth

5.1. Cywirdeb, hygyrchedd ac argaeledd gwybodaeth

170. Dywedodd Anabledd Cymru fod cyngor a gwybodaeth anghywir yn cael eu rhoi i ymgeiswyr, yn enwedig am y meini prawf cymhwystra ar gyfer bathodyn glas. Pwysleisiodd ei dystiolaeth pa mor bwysig yw bod pob ymgynghorydd ac asesydd yn ymwybodol o'r meini prawf cymhwystra cyfredol, er mwyn sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn cael y wybodaeth gywir ac y caiff asesiadau eu cwblhau yn gywir. Cawsom wybod bod aelodau Anabledd Cymru wedi tynnu sylw at nifer o broblemau penodol mewn perthynas â chael gafael ar wybodaeth am y broses ymgeisio, gan gynnwys:

- Roedd y rhai â nam ar eu golwg yn methu â chyrchu gwybodaeth ddigidol am fod fformat y ffeil yn anghydnaws â meddalwedd darllen sgriniau, ac roedd eraill heb fynediad i'r rhyngwyd, ble caiff y rhan fwyaf o'r wybodaeth ei chyhoeddi;
- Roedd y rheini ag anabledd dysgu yn dibynnu ar bobl eraill i ddehongli'r wybodaeth, gan nad oedd fersiynau hawdd eu darllen ar gael yn rhwydd; a
- Ni roddwyd cymorth cyfathrebu priodol i'r rhai ag anabledd y gofynnwyd iddynt ddod i gyfweiliad wyneb-yn-wyneb.¹¹⁵

171. Pwysleisiodd Anabledd Cymru hefyd y dylai gwybodaeth fod ar gael mewn fformatau amgen, gan gynnwys fformatau digidol hygyrch, fformatau hawdd eu darllen, fideos Iaith Arwyddion Prydain a deunyddiau hygyrch wedi'u hargraffu ar gyfer pobl heb fynediad i'r rhyngwyd.

172. Cododd Tenovus bryderon am y pwyslais y dylai ymgeiswyr gyrchu gwybodaeth, a gwneud cais, ar-lein. Amlygodd fod rhai ymgeiswyr yn dal i orfod ymweld â swyddfeydd yr awdurdod lleol i ddatrys materion na ellid eu datrys ar-lein.

173. Awgrymodd Macmillan fod ansawdd y cyngor a'r wybodaeth a roddir i ymgeiswyr yn amrywio, gyda'r awdurdodau lleol hynny sydd ag un pwynt cyswllt ar gyfer pob ymholiad yn rhoi cyngor gwaeth na'r rhai sydd â thîm bathodyn glas arbenigol.

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, BB.16. Anabledd Cymru

174. Roedd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan yn credu y dylai gwybodaeth fod ar gael yn llawer ehangach, ac y dylid ei chynnig yn rhagweithiol mewn rhai amgylchiadau, megis pan fydd unigolyn wedi'i gofrestru fel gofalwr gyda'r meddyg deulu, yn ystod apwyntiadau gydag ymwelydd iechyd, mewn ysgolion a cholegau. Ymhelaethodd Age Cymru ar yr awgrym hwn, gan nodi y dylai gwybodaeth fod ar gael mewn lleoliadau lle mae pobl yn ymgynnull yn naturiol fel archfarchnadoedd a chanolfannau siopa.

175. Cyfeiriodd y Gweinidog at y llyfryn "Pwy sy'n Gymwys am Fathodyn Glas?" gan Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2017, sydd ar gael yn ddwyieithog, ar-lein ac ar ffurf copi caled, mewn print bras ac mewn Braille,¹¹⁶ ond ychwanegodd ei fod:

"more than willing to consider any recommendations that you might have in terms of how we might work with local government to better promote the scheme."¹¹⁷

Ein barn ni

176. Er ein bod yn sylweddoli bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o gynllun y Bathodyn Glas yn eithaf uchel ar y cyfan, mae yna bob amser fwy y gellid ei wneud.

177. Er bod llyfryn "Pwy sy'n Gymwys am Fathodyn Glas?" Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol ac er y dylai fod yn gymharol hawdd dod o hyd iddo ar-lein, mae'n bosibl nad oes llawer o'r rhai sy'n chwilio am wybodaeth yn ymwybodol o'i fodolaeth.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i weithio gydag awdurdodau lleol a chyrff iechyd i hyrwyddo'r llyfryn "Pwy sy'n Gymwys am Fathodyn Glas?" trwy sicrhau bod copïau caled ar gael mewn lleoedd mae pobl yn mynd i gael gwybodaeth, fel llyfrgelloedd, canolfannau "hyb" awdurdodau lleol, Cyngor ar Bopeth a lleoliadau iechyd.

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'i llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'i llyfryn "Pwy sy'n gymwys am Fathodyn Glas?".

¹¹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 264

¹¹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 271

5. 2. Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd (yn enwedig o gyflyrau “cudd”) a herio gwahaniaethu

178. Dywedodd Age Cymru mai cymharol isel yw ymwybyddiaeth y cyhoedd o gymhwystera am fathodyn glas, ac o’r estyniadau i’r meini prawf. Roedd yn credu bod hyn yn cyfrannu at gamdybiaethau am ddeiliaid bathodynnau sy’n dod allan o’u ceir heb unrhyw nam corfforol amlwg y gellir ei weld.

179. Nododd NAS Cymru dystiolaeth anecdotaidd bod y rhai ag anabledau cudd, fel awtistiaeth, yn teimlo eu bod yn cael eu barnu neu y gwahaniaethir yn eu herbyn am ddefnyddio’r cynllun. Roedd yn credu bod rhagdybiaeth eang ymysg y cyhoedd mai dim ond y rhai sydd â phroblem symudedd corfforol gaiff ddefnyddio’r bathodyn, ac felly mae’n hanfodol bod yr holl wybodaeth gyhoeddus a gyhoeddir am gymhwystera yn ystyried yr holl ymgeiswyr hynny sy’n gymwys.

180. Cododd y cyfranogwyr yn ein cyfarfod grŵp ffocws bryderon o’r fath hefyd. Dywedodd un:

“I’r bobl hynny ag ME sy’n ddigon ffodus i gael Bathodyn Glas, maen nhw’n cael eu cam-drin gan y cyhoedd am nad oes ganddyn nhw gadair olwyn na ffon gerdded – mae pobl yn meddwl eu bod nhw’n camddefnyddio’r system.”

Rhiant ymgeisydd bathodyn glas y gwrthodwyd ei gais, Ceredigion¹¹⁸

181. Roedd Anabled Cymru o’r farn y dylid cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus gyda’r nod o leihau gwahaniaethu tuag at bobl anabl. Nododd ei dystiolaeth fod y rhai ag anabledau a chyflyrau iechyd cudd yn arbennig o agored i gael eu cam-drin gan y cyhoedd am ddefnyddio bathodyn, felly dylai unrhyw ymgyrch gynnwys amrywiaeth o bobl anabl ag anabledau a chyflyrau iechyd amrywiol.

182. Cytunodd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan fod angen ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol. Awgrymodd y dylid ei thargedu, a’i chynnal ochr yn ochr â gwaith i herio a newid canfyddiadau ehangach y cyhoedd am anabledau.

183. Nid oedd y Gweinidog yn credu bod ymwybyddiaeth o’r cynllun yn achosi unrhyw broblemau sylweddol:

“I actually think most people in society are aware of the blue badge scheme. And, within public places, we already do have information

¹¹⁸ Ymchwiliad i’r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwyster a Gweithredu – Nodyn cryno o’r grwpiau ffocws

provided, particularly in, for example, health settings. If there is an issue and it can be demonstrated of a lack of awareness of the blue badge scheme, then, certainly, we'd look to work with the private sector, where possible—supermarkets, as you've identified—to address that.”¹¹⁹

5. 3. Ffioedd

184. Nododd Anabledd Cymru, Tenovus a Chyngor Gwynedd eu cefnogaeth barhaus i fathodynnau glas am ddim yng Nghymru.

185. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y dylid cyflwyno ffi ar gyfer rhoi bathodyn, ac y dylid ei gosod ar lefel briodol i gefnogi'r gwaith o weinyddu a chyflawni'r cynllun. Roedd hefyd o'r farn y dylid cadw'r ffi am roi bathodyn newydd.

186. Dywedodd Tenovus, er bod y ffi o £10 am fathodyn newydd yn ddealladwy, y gellid cyhoeddi canllawiau ar hepgor y ffi mewn amgylchiadau penodol.

Ein barn ni

187. Rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid sy'n cynrychioli barn defnyddwyr gwasanaethau na ddylid codi ffi am roi bathodyn. Byddai cyflwyno ffi yn effeithio ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed, ac mae cynifer yn dibynnu ar eu bathodynnau i'w helpu i fyw eu bywydau bob dydd.

5. 4. Dyluniad, argaeledd a lleoliad manau parcio Bathodyn Glas

188. Dywedodd rhai deiliaid bathodyn unigol, ynghyd ag Anabledd Cymru, fod llawer o'r manau parcio dynodedig i bobl anabl yn rhy fach, ac nad ydynt yn rhoi digon o le i'r rhai sydd â phroblemau symudedd, neu'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn neu sgwter symudedd, iddynt fynd i mewn ac allan o'r car yn ddiogel.

189. Amlygodd Anabledd Cymru ac unigolion hefyd fod prinder manau parcio hygyrch neu i'r anabl, yn enwedig yn agos at siopau, canol trefi ac ati.

190. Awgrymodd Tenovus nad yw pob deiliad bathodyn angen parcio ger cyfleusterau, ond yn hytrach mae angen lle mwy arnynt neu sicrwydd y bydd lle dynodedig ar gael.

¹¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 266

191. Awgrymodd Age Cymru y dylid ystyried argaeledd manau parcio fel rhan o ymagwedd fwy cyfannol, darlun ehangach at heneiddio yn y boblogaeth o fewn y newidiadau i'r amgylchedd adeiledig.

192. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw ganllawiau penodol ar nifer y lleoedd bathodyn glas y dylid eu dyrannu mewn unrhyw leoliad penodol. Fodd bynnag, mae canllawiau anstatudol Llywodraeth y DU, [Manual for Streets](#), yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â darpariaeth llefydd parcio i bobl anabl.

Ac, yn unol â chanllawiau anstatudol Llywodraeth y DU, [Parking for Disabled People \(Traffic Advisory Leaflet 5/95\)](#), ni ddylai llefydd parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd fod yn fwy na 150 metr o gyrchfannau arwyddocaol (fel banciau, Swyddfeydd Post ac archfarchnadoedd) yn achos y rhai sydd â nam ar eu golwg a defnyddwyr cadeiriau olwyn, 100 metr yn achos y rheini sy'n gallu cerdded heb gymorth cerdded, a ddim mwy na 50 metr yn achos defnyddwyr ffon.

193. Yn achos meysydd parcio oddi ar y stryd sydd ar gyfer siopa a hamdden yn bennaf (mae'r gofynion ychydig yn is ar gyfer meysydd parcio i weithwyr ac ymwelwyr â safleoedd busnes), y nifer leiaf o lefydd parcio i'r anabl yw:

- Yn achos meysydd parcio sydd â llai na 200 o leoedd: 3 bae neu 6% o gyfanswm y capasiti, pa un bynnag yw'r mwyaf; ac
- Yn achos meysydd parcio gyda dros 200 o leoedd: 4 bae, ynghyd â 4% o gyfanswm y capasiti.

194. Mae Manual for Streets a Parking for Disabled People yn berthnasol i Gymru.

Ein barn ni

195. Mae'n hanfodol bod nifer a maint y llefydd hygyrch sydd ar gael i ddeiliaid bathodynau glas yn briodol i ddiwallu eu hanghenion. Nodwn fod dogfennau cyfarwyddyd y DU a ddarperir ar y rhain yn anstatudol, ac felly efallai na chânt eu gweithredu ym mhob achos.

196. Rydym o'r farn y dylai awdurdodau lleol, wrth wneud penderfyniadau ar nifer neu leoliad llefydd hygyrch, ymgynghori â grwpiau hygyrchedd lleol er mwyn sicrhau y gellir rhoi ystyriaeth briodol i anghenion y rhai sy'n defnyddio'r lleoedd. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol wrth fwrw ymlaen â pholisi cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio.

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at awdurdodau lleol i'w hatgoffa o bwysigrwydd ystyried y canllawiau ar barcio

hygyrch yn Manual for Streets a Parking for Disabled People pan fyddant yn bwrw ymlaen â pholisi cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio. Dylid hefyd annog awdurdodau lleol i ymgynghori â grwpiau hygyrchedd i sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion pobl anabl wrth wneud penderfyniadau.

5. 5. Symbol y bathodyn glas

197. Amlygodd Anabledd Cymru broblemau o ddefnyddio delwedd o ddefnyddiwr cadair olwyn ar y bathodyn glas ei hun. Awgrymodd fod hyn yn atgyfnerthu rhagdybiaethau ymysg y cyhoedd mai dim ond ar gyfer y rhai sydd mewn cadair olwyn y mae'r bathodyn, yn hytrach nag ar gyfer pobl ag ystod eang o anableddau. Roeddent o'r farn y dylid newid y symbol am ddelwedd fwy cynhwysol.

198. Codwyd pryderon tebyg gan yr NAS, a ddywedodd:

“the wheelchair emblem, both on the Blue Badge and on the parking spaces themselves, doesn't do any benefit for autistic people who are legitimately using a Blue Badge.”

199. Nododd Tenovus:

“the person in the wheelchair isn't the most obvious or relevant symbol nowadays.”

200. Awgrymodd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan nad oes angen delwedd benodol o reidrwydd, ac y gellid defnyddio'r lliw glas ar gyfer y bathodyn ac ar gyfer llefydd parcio.

201. Cymysg oedd barn y Gweinidog, a oedd yn cydnabod bod delwedd cadair olwyn yn symbol rhyngwladol o symudedd, ond a ddywedodd:

“I'm quite sympathetic to the idea of something that does not capture a symbol that could, for some, not be desirable. But, equally, I don't want to change something that would lead to certain benefits being lost and certain protections being lost for people.”¹²⁰

Ein barn ni

202. Er ein bod yn deall nad yw'r symbol cadair olwyn a ddefnyddir i ddangos cynllun y Bathodyn Glas yn portreadu delwedd briodol o'r holl ddefnyddwyr, yn

¹²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 1 Mai 2019, paragraff 273

enwedig gan fod y meini prawf cymhwysra wedi eu hehangu i gynnwys y rhai â namau gwybyddol, mae'n symbol y gellir ei adnabod yn rhyngwladol, a gallai defnyddio ffordd wahanol o arddangos y cynllun yng Nghymru achosi problemau. Felly, nid ydym o'r farn y dylid mabwysiadu dull gwahanol yng Nghymru ar hyn o bryd.

Atodiad A: Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn ac maent wedi'u [cyhoeddi ar y wefan](#).

Cyfeirnod	Sefydliad
BB 01	Unigolyn 1
BB 02	Cymdeithas Alzheimer Cymru
BB 03	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
BB 04	Unigolyn 2
BB 05	Gofal Canser Tenovus
BB 06	Barbara Bus Gwynedd a Môn
BB 07	Cyngor Gwynedd
BB 08	Age Cymru
BB 09	Manon Ellis Williams
BB 10	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
BB 11	Unigolyn 6
BB 12	Unigolyn 3
BB 13	Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Tâf
BB 14	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
BB 15	Swyddfa Archwilio Cymru
BB 16	Anabledd Cymru
BB 17	Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful
BB 18	Cymorth Canser Macmillan
BB 19	Unigolyn 4
BB 20	Unigolyn 5

Atodiad B: Yr amserlen o ran tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgriafiadau o'r sesiynau tystiolaeth llafar ar gael.

Dyddiad	Enw a sefydliad
21 Mawrth 2019	Miranda Evans, Anabledd Cymru
4 Ebrill 2019	Samuel Stone, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru Huw Owen, Cymdeithas Alzheimer Cymru Helen Powell, Cymorth Canser Macmillan Martin Fidler Jones, Gofal Canser Tenovus Valerie Billingham, Age Cymru Kate Young, Fforwm Cymru Gyfan Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu Andrew Meredith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Rhys J. Page, Cyngor Sir Caerfyrddin
1 Mai 2019	Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Simon Jones, Llywodraeth Cymru Dewi Rowlands, Llywodraeth Cymru
